Ar sail y cyfartaledd blynyddol ar gyfer 2020 i 2021, rhoddwyd 34% o'r holl gontractau a ddyfarnwyd gan y cyngor i gyflenwyr lleol ac roedd 12% o holl gontractau Sir Ddinbych gwerth mwy na £25,000 ac o dan £1 miliwn yn cynnwys buddion cymunedol.

Gyda'r adroddiad hwn, mae 49% o'r llinynnau mesur yn ein Cynllun Corfforaethol ar hyn o bryd â'r statws 'Blaenoriaeth ar gyfer gwella' ac mae hynny'n rhoi cyfiawnhad inni fod wedi'u cynnwys yn ein Cynllun. Mae un o'n prosiectau corfforaethol â'r statws 'dan fygythiad' ar hyn o bryd (gweler y bennod isod ynglŷn â'r Gofrestr Prosiectau i gael y manylion llawn) ac mae 94% ohonynt yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gan reolwyr prosiectau. Mae 55% o'n Risgiau Corfforaethol cyfredol yn anghydnaws â'n parodrwydd i dderbyn risg, ond mae uwch-reolwyr a'r Cabinet yn mynd i'r afael â hynny, ac mae'r ffaith mai'r rhain yw'r risgiau mwyaf difrifol i'r cyngor yn rhoi cyfiawnhad inni eu cynnwys yn ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol. Nid ydym wedi derbyn unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella gan gyrff rheoleiddio allanol (Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru). Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi sgôr sicrwydd isel i bedwar o feysydd gwaith, a rhoddwyd cynlluniau gwella ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. Y pedwar adroddiad oedd:

- Darparu Llety i Bobl Ddigartref
- Adeiladau'r Frenhines
- Taliadau Uniongyrchol i Blant
- Rheoli Contractau

Wrth ymateb i'r pandemig, mae'r cyngor eleni wedi brwydro yn erbyn gwasgfeydd mawr ar gyllidebau a cholli incwm. Mae ein llinyn mesur ynglŷn ag amrywiant yn y gyllideb (hynny yw, yr hyn sydd gennym ac a dderbyniwn yn erbyn yr hyn a wariwn) yn dangos gwahaniaeth o £7,393,000 fel yr oedd hi ym mis Mehefin 2020, ac rydym wedi dod â hyn yn ôl yn raddol i sefyllfa gadarnhaol erbyn Mawrth 2021 (-£718,000). Mae yno £7.135 miliwn yng nghronfeydd wrth gefn y cyngor ar hyn o bryd.

Ar ddiwedd 2020 i 2021, roedd 57% o'r holl gwynion allanol a dderbyniodd y cyngor wedi'u cadarnhau (27 o 47). Cynhyrchir adroddiadau ar gwynion bob tri mis ac fe'u rhennir ag aelodau'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad er gwybodaeth. Drwy gynnwys y llinyn mesur hwn yn yr adroddiad (yn ogystal ag adroddiadau chwarterol yn y dyfodol) fe gaiff staff ac aelodau etholedig olwg ehangach ar yr wybodaeth.

Mae pethau wedi gwella'n fawr gydag absenoldebau staff dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ostwng o 8 diwrnod i 6.47. Mae hyn yn gyson â'r patrwm cenedlaethol ac mae'n bosib ei fod yn dangos fod newid ffyrdd o weithio wedi bod yn fuddiol i lesiant pobl ond y peth mwyaf, wrth gwrs, yw bod annwyd a'r ffliw heb fod yn trosglwyddo rhwng aelodau o staff oherwydd y cyfyngiadau ar gwrdd wyneb yn wyneb.

Yn 2020 i 2021 rhoesom y gorau i'n hen system o arfarniadau perfformiad blynyddol, ac yn lle hynny dechreuwyd cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng rheolwyr ac aelodau unigol o staff. Arferai pobl wneud hynny beth bynnag i raddau helaeth, ond mae ein dull newydd wedi ffurfioli'r drefn, gan gynnwys ffurflen i weithwyr ei llenwi sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau fel amcanion, hyfforddiant a datblygu a phresenoldeb. Ein nod yw y dylai pob aelod o staff gael o leiaf tri o gyfarfodydd unigol bob blwyddyn. Mae'r data am y flwyddyn gyntaf, fodd bynnag, yn dangos mai dim ond 45% o'r staff a gafodd dri chyfarfod. Bydd Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'r timau rheoli i wella'r sefyllfa.

Mae a wnelo ein llinyn mesur olaf ag ymdrechion y cyngor i gefnogi pobl i gael gwaith, gan gynnwys y lleoliadau gwaith yr ydym yn eu cynnig ein hunain. Yn 2020 i 2021 llwyddom i gefnogi 36 o unigolion, sy'n well na'r flwyddyn flaenorol.

Hunanasesiad Iechyd Corfforaethol: Meysydd Llywodraethu

Cyflwynir isod ein hunanasesiad ar sail y saith o feysydd llywodraethu allweddol a bennir yn y canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae seilio ein hunanasesiad ar ymatebion budd-ddeiliaid yn un agwedd arwyddocaol ar ofynion y Ddeddf newydd ynglŷn â'n perfformiad. Bydd angen llawer o waith i wneud hynny'n iawn, ac yn anffodus nid oedd digon amser ar gyfer yr adroddiad 'prawf' hwn. Ein cam gwella cyntaf, felly, yw sefydlu proses flynyddol newydd ar gyfer casglu barn pobl am ein perfformiad mewn pryd i ddefnyddio'r data yn yr adroddiad hunanasesu cyntaf sy'n ofynnol (a ragwelir ym mis Mehefin 2022). Bwriadwn ddechrau casglu data drwy'r Arolwg Preswylwyr yn yr hydref, ond gobeithiwn fedru defnyddio dulliau ymgysylltu mwy ansoddol o fis Mawrth 2022 ymlaen, drwy gyfuniad o gyfryngau cymdeithasol, porth Sgwrs y Sir a'r Panel.

Lluniwyd yr asesiad gyda'r nod o ateb cwestiynau am y modd y mae'r cyngor yn perfformio ar hyn o bryd a sut rydym yn gwybod hynny (gan gynnwys unrhyw dystiolaeth sydd ar gael), ac ystyried yr hyn y gallwn ei wneud i wella.

Cynllunio Corfforaethol

Rhoddwyd trefniadau parhad busnes y cyngor ar brawf o ddifrif yn 2020 i 2021. Bu'n rhaid rhoi Cynlluniau Gwasanaeth yn cynnwys gweithgarwch gwella am y flwyddyn o'r neilltu am y tro wrth i'r cyngor ymateb yn gyflym i'r pandemig gan orfod addasu darpariaeth gwasanaethau er mwyn bodloni anghenion brys y gymuned. Rhoddwyd cyfrifoldeb ychwanegol i'r Tîm Rheoli Argyfyngau Strategol gydlynu adnoddau'r cyngor yn dactegol, effeithiol, effeithlon ac yn ddarbodus wrth ymateb i'r argyfwng. Cyfarfu'r tîm yn gyson gydol y flwyddyn (teirgwaith yr wythnos pan ddechreuodd y pandemig), ac roedd yn cynnwys uwch-reolwyr (gan gynnwys Adnoddau Dynol a TGCh) ac aelodau Cabinet arweiniol, gyda'r Tîm Rhanbarthol Cynllunio rhag Argyfwng yn cynorthwyo. Gydol yr amser mae'r cyngor wedi gweithio'n agos â'i bartneriaid rhanbarthol, gan gydlynu'r gwaith ar sail pedair o themâu allweddol ar gyfer yr adferiad, sef Profi, Olrhain a Diogelu; iechyd a gofal cymdeithasol; yr economi a busnesau; a chadernid cymunedol. Sefydlodd y cyngor 17 o themâu ar gyfer adfer ei fusnes ei hun, a dynodwyd swyddog arweiniol ac aelod arweiniol o'r Tîm Rheoli Argyfyngau Strategol ar gyfer pob un o'r rhain. Bu pwyllgorau craffu'r cyngor yn craffu arnynt hefyd. Gellir gweld y papurau ar dudalen pwyllgorau'r cyngor ar modern.gov.

Effaith uniongyrchol y cyfyngiadau ar Gynllun Corfforaethol y cyngor oedd bod nifer o brosiectau heb fedru cyrraedd eu cerrig milltir fel y bwriadwyd. Roedd hi'n agosáu at ddiwedd haf 2020 erbyn inni fedru arfarnu sut roeddem yn dod yn ein blaenau, a bryd hynny cynhaliwyd Adolygiad Cyfran gyda Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol. Yn y cyfarfod hwnnw rhoes y Bwrdd ymrwymiad o'r newydd i flaenoriaethau a phrosiectau ein Cynllun Corfforaethol cyfredol, ar sail y farn eu bod yn dal yn berthnasol er gwaethaf Covid-19. Yn benodol, amlygwyd cystal roedd llawer o'n prosiectau wedi addasu er mwyn darparu eu buddion mewn gwahanol ffyrdd; roedd nifer ohonynt hefyd yn rhoi'r cyngor mewn gwell sefyllfa i ymateb i anghenion y gymuned pan ddechreuodd y pandemig, fel ein gwaith â gofalwyr, er enghraifft, neu'r prosiect Cefnogaeth i Rieni.

Er bod Uwch-reolwyr a'r Cabinet wedi dal i gwrdd gydol y pandemig, roedd hi'n fis Medi 2020 erbyn i'r Cyngor a phwyllgorau eraill fedru ailgychwyn eu cyfarfodydd. Erbyn hyn rydym wedi dychwelyd i'n trefn arferol o gyfarfodydd a chynhelir pob un ohonynt yn rhithiol. Rydym hefyd yn falch o fod wedi medru ailddechrau gweddarlledu cyfarfodydd cyhoeddus, sy'n bwysig o ran bod yn agored a thryloyw, yn enwedig felly wrth i'r cyngor edrych ymlaen at ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2022-2027. Mae llawer o waith eisoes

wedi'i wneud wrth baratoi ar gyfer y cynllun newydd, gan gynnwys diwygio ein Hasesiad o Lesiant ar gyfer y sir a chynllunio rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu â budd-ddeiliaid dros yr haf a thu hwnt. Mae'r ddwy elfen hon yn hanfodol i gynnwys y Cynllun nesaf. Rhagwelwn y bydd y Cyngor newydd yn cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol nesaf ym mis Hydref 2022.

Mae'r cyngor yn wynebu nifer o heriau eraill yn y flwyddyn sydd i ddod, gan gynnwys penodi Prif Swyddog Gweithredol newydd. Mae trefniadau dros dro ar waith yn y cyfamser, gyda'r ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol yn ymgymryd â chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Gweithredol. Ail-ffurfiwyd y Tîm Gweithredol Corfforaethol hefyd i rannu'r cyfrifoldeb a chynorthwyo gyda chadw gorolwg ar bethau.

Bydd yn rhaid inni hefyd ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan y daw'r dyletswyddau perfformiad i rym ym mis Ebrill. Bydd yno oblygiadau eraill i ddemocratiaeth, llywodraethu ac asesu a bydd angen cynllunio ar gyfer y rheiny yn y flwyddyn sydd i ddod; bwriedir ffurfio gweithgor swyddogion ac aelodau i fod yn gyfrifol am hynny.

Daliwn ati i fonitro effeithiau posib ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar y cyngor a'r sir, ond efallai na ddaeth y rheiny i'r amlwg i raddau helaeth oherwydd effaith y cyfyngiadau Covid-19 ar fusnesau. Rhagwelwn y bydd hyn yn effeithio ar rai sectorau o'r economi yn Sir Ddinbych yn fwy nag eraill, ond hyd oni fydd yr economi wedi ailgychwyn yn llwyr unwaith eto, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau pendant ynglŷn â'r goblygiadau. Mae arnom hefyd angen paratoi ar gyfer swyddogaethau newydd Llywodraeth Leol yng Nghymru wrth inni ddisgwyl am y rheoliadau a chronfeydd newydd a ddaw yn lle rhai'r Undeb Ewropeaidd.

Maes gwaith arall yw sicrhau bod Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol newydd y cyngor yn cael ei sefydlu'n drwyadl yn ein gwaith beunyddiol. Mae'r strategaeth yn cyflwyno risg arwyddocaol i'r cyngor wrth ymdrechu tua'r nod o fod yn awdurdod di-garbon net erbyn 2030; mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud yn 2020 i 2021, fodd bynnag, i sicrhau fod gennym ddealltwriaeth dda o oblygiadau'r cynllun ac wedi sefydlu gweithdrefnau monitro trylwyr.

Mae'r her olaf i'r cyngor yn un sylfaenol sydd a wnelo â'r ffordd yr ydym yn gweithio fel sefydliad. Rydym oll wedi gweld manteision ac anfanteision gweithio gartref yn ystod 2020 i 2021, ac yn ôl pob tebyg bydd y cyngor yn dechrau mabwysiadu dull sy'n annog ei staff i

weithio mwy o gartref. Mae angen inni ddeall, serch hynny, sut fydd pethau'n gweithio'n ymarferol a beth fydd y goblygiadau i'n cymunedau, yn enwedig wrth inni geisio cefnogi adferiad Sir Ddinbych ar ôl Covid-19.

Cynllunio Ariannol

Cyhoeddodd Archwilio Cymru Adroddiad Asesu Cynaladwyedd Ariannol ym mis Mawrth 2020 gan ddod i'r casgliad bod Cyngor Sir Ddinbych mewn sefyllfa ariannol gymharol gref, ond bod arno angen atgyfnerthu ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a dod â gorwariant rhai gwasanaethau dan reolaeth er mwyn sicrhau cynaladwyedd ariannol yn y dyfodol.

Er bod gan y cyngor enw da am adnabod gwasgfeydd strategol mewn blynyddoedd diweddar, a bod canlyniadau ariannol y cyngor yn adlewyrchu hynny, roedd yr ymatebion a gafwyd gan nifer o wasanaethau ers nifer o flynyddoedd yn codi cwestiynau ynglŷn â beth oedd y broses ar gyfer adnabod gwallau a gwasgfeydd ar gyllidebau ar raddfa lai. Yn y gorffennol mae ymarferion fel hyn wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, pan na fu modd cyflawni arbedion gwasanaeth, neu pan mae gwleidyddion wedi codi materion, er enghraifft. Ceir perygl y gallai hynny arwain at benderfyniadau anghytbwys ac andwyo ar broses y gyllideb a'i huniondeb. Mae cynigion terfynol i gydbwyso cyllideb 2021 i 22 wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Y pandemig Covid-19 yw'r risg fwyaf a'r mater pwysicaf y mae cynghorau a'r sector cyhoeddus yn ei wynebu yn 2020 i 2021. Mae'n galonogol fod y Strategaeth Adferiad Ariannol Covid a gymeradwywyd gan y Cabinet ym Mai 2020 wedi darparu cynllun cadarn ar gyfer ymateb y cyngor. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd y cymorth ariannol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru'n fwy na £21.7 miliwn, sy'n dyst i werth gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. Mae'n golygu hefyd fod y cyngor mewn sefyllfa iach i wynebu'r heriau ariannol sy'n sicr o ddod yn y dyfodol.

Mae'r Cynigion Terfynol ar gyfer Cyllideb 2021 i 2022 yn seiliedig ar ddull cytbwys sy'n cymryd yr egwyddorion canlynol i ystyriaeth:

- Anelu at gydnabod ac unioni pwysau o fewn blwyddyn a rhagweld pwysau gwasanaeth gymaint â phosibl er mwyn datblygu cadernid.
- Sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu herio i gyflawni gwasanaethau effeithiol, ond i geisio lleihau effaith cynigion ar ddefnyddwyr gwasanaethau a staff.
- Cadw cynnydd yn Nhreth y Cyngor mor isel ag sy'n ymarferol bosibl.

- Cyfyngu ar ddefnyddio Arian Parod sydd ond yn gohirio'r angen i nodi arbedion.
- Cynnal cyllid ar gyfer blaenoriaethau corfforaethol.

Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae effaith y pandemig a'r ansicrwydd ynglŷn â lefel ac amseriad y setliadau ariannol eto eleni wedi gwneud cynllunio ariannol hyd yn oed yn fwy heriol. Pan gyhoeddwyd y setliad drafft o'r diwedd, fodd bynnag, roedd yn dilyn y tueddiad yn ôl at setliadau cadarnhaol, sy'n rhywbeth i'w groesawu a gobeithio'n cydnabod y gwaith pwysig a gyflawnir gan Lywodraeth Leol a'r pwysau y mae'n eu hwynebu.

Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf ar y Cynllun Cyfalaf llawn i'r Cyngor fis Chwefror 2021. Cyflwynir yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet bob mis. Mae'r Cynllun Cyfalaf Amcangyfrifedig bellach yn £42.36 miliwn. Diwygiwyd y cynllun ers adrodd yn ei gylch i'r Cabinet ar 16 Chwefror 2021. Mae'r Cynllun Cyfalaf yn cynnwys y Strategaeth Gyfalaf, sy'n adroddiad newydd a gyflwynwyd yn 2019 i 2020 i roi gorolwg lefel uchel o'r modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a rheoli'r trysorlys oll yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn lleol, a gorolwg o'r modd y rheolir unrhyw risgiau cysylltiedig a'r goblygiadau i gynaladwyedd ariannol y cyngor yn y dyfodol.

Yn 2021 i 2022, mae'r cyngor yn bwriadu gwario £76.7 miliwn o gyfalaf fel y nodir yn gryno isod:

Gwariant Cyfalaf	**Cymeradwywyd 2020 i 2021 (£000)**	**2020 i 2021 Diwygiedig (£000)**	**Amcangyfrif 2021 i 2022 (£000)**	**Amcangyfrif 2022 i 2023 (£000)**	**Amcangyfrif 2023 i 2024 (£000)**
Cronfa'r Cyngor	41,648	42,364	54,475	18,580	7,507
Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif	2,020	27	1,556	9,752	29,745

Gwariant Cyfalaf	Cymeradwywyd 2020 i 2021 (£000)	2020 i 2021 Diwygiedig (£000)	Amcangyfrif 2021 i 2022 (£000)	Amcangyfrif 2022 i 2023 (£000)	Amcangyfrif 2023 i 2024 (£000)
Y Cyfrif Refeniw Tai	19,172	14,876	20,663	18,245	15,468
Cyfanswm	**62,840**	**57,267**	**76,694**	**46,577**	**52,720**

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gyfrif wedi'i glustnodi sy'n sicrhau nad yw gwasanaeth tai'r cyngor yn rhoi cymhorthdal i unrhyw wasanaethau lleol eraill, nac ychwaith yn derbyn unrhyw gymhorthdal ei hun ganddynt. Felly, cofnodir gwariant cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai ar wahân. Ceir manylion y Cyllidebau Cyfalaf Tai yn yr Adroddiad ar Osod Rhent Tai a Chyllidebau Refeniw Tai a Chyfalaf aeth gerbron y Cabinet ar 19 Ionawr 2021.

Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn cynnal adolygiad annibynnol o bob cais achos busnes am fuddsoddiad cyfalaf, beth bynnag ei werth, a dirprwywyd awdurdod iddo gymeradwyo ceisiadau gwerth hyd at £1 miliwn. Bydd hefyd yn argymell cynlluniau naill ai i'r Cabinet neu'r Cyngor os yw'r cais yn werth mwy nag £1 miliwn, neu os yw'n fwy priodol i'r Cabinet neu'r Cyngor benderfynu am resymau eraill. Bob blwyddyn mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn gwahodd Penaethiaid Gwasanaethau i gyflwyno ceisiadau, cyn cwrdd i drafod y ceisiadau a dderbynnid ar argymell i'r Cabinet a'r Cyngor sut ddylid dosrannu'r cyllid. Mae'r argymhellion ar gyfer 2021 i 2022 wedi'u cynnwys yn atodiad 5 yr adroddiad ar y Cynllun Cyfalaf. Mae'r Adroddiad Ariannol a gyflwynir i'r Cabinet bob mis yn cynnwys crynodeb o Gynllun Cyfalaf y Cyngor. Mae'n dangos y Cynllun Cyfalaf fel y'i cymeradwywyd a'r gwariant hyd hynny. Mae'r Cynllun Cyfalaf cyffredinol hefyd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y prif brosiectau.

Ariennir y Cynllun Cyfalaf yn rhannol drwy dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu asedau'r cyngor. Mae'r tabl isod yn dangos y derbyniadau gros a gyflawnwyd yn 2020 i 21. Yn ogystal â hynny mae datblygiadau'n mynd rhagddynt i werthu nifer o asedau eraill.

Asedau	**2020 - 2021 (£000)**
Castell Bodelwyddan	700
Yr hen gae mulod yn y Rhyl	90
Fferm Four Crosses, Glanrafon	515
Fferm Lletty, Llandyrnog	480
Tir yng Ngallt Melyd	57
Ysgubor, Ty'n Celyn, Glanrafon	15
Cyfanswm	**1,857**

Bob blwyddyn mae'r cyngor yn pennu Dangosyddion Darbodus sy'n gosod terfynau darbodus ar ei fenthyca. Mae dyled y cyngor yn £241.8 miliwn ar hyn o bryd. Mae hyn o fewn y Ffin Weithredol (£265 miliwn) a'r Terfyn Awdurdodedig (£270 miliwn) ac yn llai na rhagolwg y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (£296 miliwn). Golyga hynny bod y cyngor yn cadw at y Cod Darbodus Cyllid Cyfalaf ac nid yw'n benthyca mwy na'i anghenion cyfalaf.

Cymhareb costau ariannu a llif refeniw net ar gyfer 2020 i 21 yw 6.64%. Mae'r gymhareb hon yn arwydd o fforddiadwyedd ac mae'n tynnu sylw at oblygiadau refeniw gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy nodi cyfran o'r gyllideb refeniw sydd ei angen i dalu costau benthyca.

Rheoli Perfformiad

Aeth ein gwasanaeth Archwilio Mewnol ati i adolygu trefniadau rheoli perfformiad y cyngor ym mis Mawrth 2020, gan roi sgôr sicrwydd uchel a dod i'r casgliad bod fframwaith rheoli perfformiad y cyngor yn cael ei reoli'n dda a bod cefnogaeth briodol ar gael. Mae strategaeth rheoli perfformiad y cyngor, Gwella Gwasanaethau i'n Cymunedau: canllaw i reoli perfformiad, yn rhoi arweiniad manwl ynglŷn â sicrhau fod yno drefniadau a dulliau

rheoli digonol ar waith ar gyfer monitro perfformiad. Amlygwyd dau o risgiau yn yr adroddiad Archwilio Mewnol:

1. **Dibyniaeth ar ddarparwyr allanol i ddarparu data ar berfformiad heb wirio ei gywirdeb na'i uniondeb.** Yn sgil hyn mae'r cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer rheoli contractau a bellach yn annog gwasanaethau wrth lunio eu cynlluniau gwasanaeth blynyddol i ystyried dangosydd perfformiad allweddol unrhyw bartneriaid sy'n darparu gwasanaethau ar ran y cyngor.

2. **Caiff adroddiadau rheoli perfformiad ac adroddiadau cyllid eu llunio a'u cyflwyno ar wahân, heb unrhyw gysylltiadau amlwg rhyngddynt.** Mae hon yn her o dan ein systemau a'n gweithdrefnau presennol, ond mae adroddiadau perfformiad chwarterol a blynyddol y cyngor yn canolbwyntio ar brosiectau ein Cynllun Corfforaethol, sydd oll yn seiliedig ar strategaeth ariannol bendant y mae Bwrdd y Cynllun Corfforaethol yn ei monitro'n gyson. Mae modd i wasanaethau adolygu eu canlyniadau perfformiad eu hunain hefyd, ac ystyried y rheiny ochr yn ochr â chyllid os oes angen.

Ceir crynodeb o'n gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2019 i 2020 yma. Rhagwelir cyhoeddi'r adroddiad archwilio mewnol ar gyfer 2020 i 2021 ym mis Mehefin 2021.

Mae trefniadau rheoli perfformiad y cyngor wedi profi heriau yn ystod 2020 i 2021. Gyda dechrau'r pandemig bu'n rhaid i bob un aelod o'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, sy'n gyfrifol am adroddiadau corfforaethol, symud i swyddi eraill dros dro er mwyn cynnal gwasanaethau a chefnogi'r gymuned. Mae hyn wrth reswm wedi effeithio ar ein hamserlen adroddiadau. Ni luniwyd adroddiad ar wahân ar gyfer 'chwarter un' (Ebrill-Mehefin) yn 2020 o ganlyniad i hyn, a chyhoeddwyd ein Hadolygiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2019 i 2020 bedwar mis yn hwyr (ond fe lwyddom i'w gyhoeddi cyn y terfyn amser cyfreithiol). Er gwaethaf hynny, manteisiom ar y cyfle i gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf o chwarter un yn ein Hadroddiad Blynyddol lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau bod yr adroddiad mor gyfoes a pherthnasol â phosib i'r aelodau etholedig a'r cyhoedd pan y'i cyhoeddwyd ym mis Hydref. Erbyn hyn rydym wedi dychwelyd i'r drefn arferol gydag adroddiadau, er y bydd yno rai data ar goll o hyd oherwydd effaith Covid-19 ar wasanaethau; un pryder mawr yw monitro cyrhaeddiad disgyblion (fel y nodwyd o dan y flaenoriaeth Pobl Ifanc yn gynharach).

Fe wnaeth y pandemig amharu hefyd ar ein rhaglen Herio Gwasanaethau (sy'n rhan bwysig o'n Fframwaith Rheoli Perfformiad) ar gyfer 2019 i 2020, a bu'n rhaid gohirio'r heriau ar gyfer Cyllid ac Eiddo, y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (er bod y papurau ar eu cyfer wedi'u llunio a'u dosbarthu); ac yn olaf, Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol. Ni chynhaliwyd Heriau Gwasanaeth yn ystod 2020 i 2021 wrth i'r gwasanaethau ganolbwyntio ar adferiad; lluniwyd rhaglen fwy cryno, fodd bynnag, fel y gellir cwrdd â phob gwasanaeth ym mis Mehefin a Gorffennaf 2021 i drafod adfer ar ôl Covid-19 a chynlluniau ar gyfer gwella.

Un peth arall sy'n werth ei nodi yw bod y cyngor, wrth i'r contract cyfredol ddirwyn i ben, wedi adolygu ei system rheoli perfformiad a gwahodd tendrau am un newydd. Canlyniad y broses dendro oedd bodd y cyngor yn cadw'r un darparwr. Bydd hyn yn sicrhau parhad y prosesau cyfredol sy'n gweithio'n dda i'r cyngor.

Aeth Archwilio Cymru ati i archwilio hunanasesiad y cyngor o'i berfformiad yn 2019 i 2020 yn ogystal â'n cynlluniau ar gyfer gwella yn 2020 i 2021, gan ddod i'r casgliad ein bod wedi cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol o dan adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r dyletswyddau hynny. Ceir crynodeb o waith Archwilio Cymru yn Sir Ddinbych yma, ac mae'n cadarnhau bod gan y cyngor drefniadau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus. Rydym yn bodloni'r un gofynion cyfreithiol drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn, ac wrth edrych i'r dyfodol byddwn yn cynnwys yr adran hon ar lechyd Corfforaethol wrth hunanasesu ein trefniadau llywodraethu, yn unol â gofynion newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yn 2021 i 2022 byddwn yn mynd ati i sefydlu trefniadau newydd ar gyfer casglu barn budd-ddeiliaid am ein perfformiad, a byddwn yn cynnwys hynny yn yr adroddiad hwn hefyd yn y dyfodol.

Rhoes Arolygiaeth Gofal Cymru adolygiad o berfformiad ein Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2019 i 2020 yn ei lythyr adolygu perfformiad blynyddol. Mae adroddiad blynyddol ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn arfarnu ein perfformiad, a gellir ei ddarllen yma.

Rheoli Risg

Cynhaliodd ein tîm Archwilio Mewnol yr adolygiad diwethaf o'n gweithdrefnau Rheoli Risg ym mis Ionawr 2019, gan roi sgôr sicrwydd canolig a dod i'r casgliad bod y fframwaith rheoli risg, gan gynnwys arweinyddiaeth a rheolaeth, polisi a strategaeth, yn gadarn a bod

prosesau'n gweithio'n dda. Mae ein canllawiau ar reoli risg, Rheoli Risg er mwyn darparu gwasanaethau gwell, yn esbonio dull y cyngor o reoli risg ac yn manylu ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau unigolion perthnasol. Amlygwyd pump o risgiau yn yr adroddiad Archwilio Mewnol:

1. **Nid oedd y cyngor wedi cyfleu ei barodrwydd i dderbyn risg.** Yn sgil hyn mae'r cyngor wedi llunio datganiad ar ei barodrwydd i dderbyn risg a fabwysiadwyd ym mis Medi 2019, ac aethpwyd ati i'w adolygu a'i ddiwygio ym mis Medi 2020 (gan gynnwys datganiad ar wahân ynghylch parodrwydd i dderbyn risg diogelu, ac ar sail sylwadau gan staff, nodyn i egluro'r berthynas rhwng parodrwydd i dderbyn risg a difrifoldeb risg). Mae parodrwydd i dderbyn risg yn fater cymhleth a bydd yn cymryd amser i'r sefydliad ddod i'w ddeall yn well. Mae cyflwyno'r datganiad, serch hynny, wedi ychwanegu gwerth at ein sgyrsiau â pherchnogion risg a phwyllgorau, a bydd ein Hadolygiad Risg Corfforaethol nesaf yn canolbwyntio'n benodol ar leihau'r bylchau mawr sydd yno rhwng rhai o'n risgiau mwyaf difrifol a'n parodrwydd i'w derbyn.

2. **Dylai staff ar bob lefel fod yn sicr o'u cyfrifoldebau yng nghyswllt rheoli risg.** Yn dilyn yr adroddiad Archwilio Mewnol, darparodd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad sesiynau hyfforddiant rheoli risg i'r timau rheoli a chynhaliwyd sesiynau galw heibio i'r staff. Mae'r canllawiau hefyd yn cyfleu'n bendant beth yw swyddogaethau a chyfrifoldebau pob aelod o staff a phob aelod etholedig ar bob lefel.

3. **Roedd y trefniadau rheoli risg ar gyfer Dulliau Darparu Gwasanaethau Amgen yn aneglur.** Mae'r cyngor wedi datblygu pecyn gwaith newydd i gynorthwyo gyda rheoli Dulliau Darparu Gwasanaethau Amgen. Mae'n cynnwys pennod ynglŷn â rheoli risg yn effeithiol.

4. **Gellid gwella'r modd y cyfathrebir ynghylch risg ar bob lefel.** Wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf gan berchnogion risg, mae'r Gofrestr yn destun trafodaeth i'r Tîm Arwain Strategol bob chwe mis; ac yn dilyn sylwadau mewn sesiwn briffio'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad, fe'i rhennir ag aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio. Fe'i trafodir hefyd gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio o leiaf unwaith y flwyddyn fel y gellir rhoi sicrwydd bod ein proses yn un gadarn. Mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn atgoffa gwasanaethau bob tri mis i adolygu eu cofrestri.

5. **Cysylltu risg â rheoli perfformiad.** Yn ein cofrestr risg ceir adroddiad manwl o dan bob pennawd sy'n esbonio sut mae risgiau wedi dod i'r amlwg neu wedi newid. Mae ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol hefyd bellach yn cynnwys y prif uchafbwyntiau a gwersi i'w dysgu ar sail ein gwaith rheoli risg yn y flwyddyn ddiwethaf.

Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad arall o ddull Rheoli Risg y cyngor yn ystod 2021 i 2022.

Cynhaliwyd ein hadolygiad risg diwethaf ym mis Chwefror 2021 a gellir ei ddarllen yma, ac mae'r Gofrestr Risg Corfforaethol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn atodiad 2. Ni ddaethom ar draws unrhyw risgiau annisgwyl yn ystod 2020 i 2021 ac ni ddatblygodd yr un o'n risgiau yn fater andwyol. Cadarnhawyd y gellid ymateb yn gadarnhaol i'r risg ynglŷn â gallu'r cyngor i ymateb i argyfyngau fel digwyddiad sy'n peryglu iechyd y cyhoedd (hynny yw, Covid-19), a phan ddechreuodd y pandemig fe lwyddom i gynnal gwasanaethau statudol a mwy wrth inni ymateb i'r argyfwng. Mae'r feirws, wrth gwrs, wedi cynyddu'r tebygolrwydd y bydd risgiau eraill yn codi, yn benodol felly'r risg o ddirywiad yn yr economi a chynnydd mewn rhwymedigaethau ariannol. Mae ein hadolygiadau Risg Corfforaethol a gynhaliwyd fis Medi 2020 a mis Chwefror 2021 yn adlewyrchu'r gwasgfeydd cynyddol hynny.

Dim ond un risg newydd a nodwyd yn y Gofrestr Risg Corfforaethol yn ystod 2021 i 2022, ond yn ddiweddarach fe'i hisraddiwyd i Gofrestr Risg y Gwasanaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad ar sail canllawiau diwygiedig gan Lywodraeth Cymru a oedd yn lleihau ei debygolrwydd. Roedd a wnelo'r risg â'r potensial o fethu â chwblhau'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a'i fabwysiadu oherwydd effaith Covid-19 ar allu'r staff i gyflawni.

Mae'r risgiau sydd a wnelont â chlefyd coed ynn, ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a Bargen Dwf Gogledd Cymru wedi dod yn fwyfwy dan ein rheolaeth wrth inni wneud cynnydd gyda gwaith yn y meysydd hynny neu feithrin gwell dealltwriaeth ohonynt wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Mae difrifoldeb y risgiau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'r Fargen Dwf wedi lleihau rywfaint. Mae'r clefyd coed ynn, fodd bynnag, yn dal yn un o'n risgiau mwyaf difrifol a gwneir llawer iawn o waith yn y maes hwn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r broblem. Ar hyn o bryd mae'r risg yn llawer iawn mwy na'r hyn yr ydym yn barod i'w dderbyn yng nghyd-destun diogelu'r cyhoedd. Nid hwn yw'r unig risg, fodd bynnag, sy'n anghydnaws â'n parodrwydd i dderbyn risg; mae yno 11 o risgiau eraill (o gyfanswm o 20). Adolygwyd pob un o'r rhain yn drylwyr mewn trafodaethau â

pherchnogion risg, ond cytunwyd bod eu sgoriau'n briodol am y tro. Mae'r anghydnawsedd yn rhoi cyfiawnhad inni gynnwys y risgiau hyn yn y Gofrestr Risg Corfforaethol a'u monitro, fel bod y materion hyn yn cael sylw gan reolwyr ac aelodau etholedig ar y lefelau uchaf yn y cyngor. Fel y soniwyd eisoes, fodd bynnag, bydd ein hadolygiad nesaf (ym mis Medi 2021) â'r nod o ganolbwyntio'n benodol ar leihau'r bylchau mwyaf rhwng ein risgiau mwyaf difrifol a'n parodrwydd i dderbyn risg, a cheir gobaith hefyd y bydd yn helpu'r sefydliad i ddatblygu gwell dealltwriaeth o barodrwydd i dderbyn risg.

Cynllunio'r Gweithlu

Mae'r cyngor yn cyflogi mwy na 4,000 o bobl. Mae'n un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal. Bob blwyddyn cyhoeddwn Adroddiad Dyletswydd y Sector Cyhoeddus. Mae'r adroddiad yn egluro sut mae'r cyngor yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ymhob agwedd ar ein swyddogaethau cyflogaeth. Ni ddatganwyd data sensitif ar gyfer llawer o weithwyr (52%), sy'n ei gwneud yn anodd, gan ystyried yr holl amrywiolion, pennu i ba raddau y mae ein gweithlu'n gynrychioladol o'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu, neu sicrhau na chaiff ein staff ac ymgeiswyr am swyddi eu trin yn llai ffafriol nag eraill. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwell gwybodaeth reoli ynglŷn â staff yn ymgeisio am hyfforddiant ac yn cael eu gwrthod. Rydym yn annog ein staff i ddarparu data cydraddoldeb amdanynt eu hunain ac wedi cyflwyno ffordd fwy hwylus o ddarparu'r wybodaeth ar ein gwedudalennau Hunanwasanaeth Staff. Ni fu modd pennu a oes unrhyw anghysonderau yn y drefn o lunio rhestri byr wrth recriwtio pobl. Gobeithiwn oresgyn hynny wrth lunio adroddiadau yn y dyfodol drwy ddatblygu datrysiad gyda'r timau Adnoddau Dynol a Gweinyddu Ysgolion.

Canfu ein Hadroddiad ar Gyflogau'r Rhywiau bod gweithwyr benywaidd yn fwy tebygol o fod mewn swyddi â chyflogau is, ac mae'r un patrwm i'w weld yn y rhan helaeth o sefydliadau. Gelwir hyn yn 'wahanu galwedigaethol' sy'n golygu fod yno ddosbarthiad anghyson o wrywod a benywod yn ôl eu dewisiadau ystrydebol ynghylch eu gyrfaoedd. Er enghraifft, tybir yn gyffredinol mai menywod sy'n gweithio mewn swyddi iechyd a gofal cymdeithasol ac mai gwrywod sy'n gweithio mewn swyddi adeiladu. Rydym wedi pennu nifer o gamau gweithredu a fydd yn helpu i gau'r bwlch. Yn gryno, byddwn yn:

- Datblygu a chynnal ein polisi Cyfle Cyfartal mewn Cyflogaeth ar gyfer gweithwyr.
- Sicrhau cysondeb a thegwch yng nghyswllt cyflogau ac arferion recriwtio a dethol, a dal i fonitro'r prosesau hyn gan edrych ar nodweddion gwarchodedig.

- Gwella'r drefn o fonitro a dadansoddi cydraddoldeb mewn gwahanol swyddogaethau, fel hyfforddiant a datblygu, cyfweliadau ymadael ac yn y blaen.
- Annog y defnydd o'n polisïau gweithio'n hyblyg a'n polisi gweithio gartref pan fo'n bosibl i gynorthwyo'r broses o fynd i'r afael â materion cydraddoldeb.
- Sicrhau y cyhoeddir Adroddiad ar Gyflog y Rhywiau bob blwyddyn a sicrhau y caiff unrhyw gynlluniau gwella eu gweithredu a'u diweddaru.
- Cefnogi rheolwyr ym maes cydraddoldeb drwy ddarparu hyfforddiant ac e-ddysgu.

Rydym wrthi'n casglu a dadansoddi gwybodaeth ar gyfer ein hadroddiad nesaf ar Gyflogau'r Rhywiau (estynnwyd y terfyn amser cenedlaethol hyd fis Hydref 2021).

Cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol Adolygiad Recriwtio a Chadw yn ddiweddar a rhoddwyd sgôr 'sicrwydd uchel' yn gyffredinol, sy'n golygu bod yno reolaeth dda dros y risgiau a'r dulliau rheoli, a bod yr amcanion yn cael eu cyflawni. Cytunwyd ar ddau gam gweithredu bach o ganlyniad i'r adolygiad, er mwyn sicrhau bod trafodaethau'n parhau gyda gwasanaethau ynglŷn â recriwtio a chadw, a sicrhau y cedwir cofnodion trylwyr.

Rydym yn cwblhau adolygiad o gynllunio'r gweithlu gyda'r holl wasanaethau rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr bob blwyddyn. Diben yr adolygiadau hyn yw dod i ddeall yn fanwl mor effeithiol y caiff y gweithlu ymhob gwasanaeth ei gefnogi a'i reoli, cael syniad o'r amrywiaeth yn y gwasanaeth, ac amlygu heriau o ran cadw staff a'r heriau a allai godi pe byddai gweithwyr allweddol yn ymadael â'u swyddi. Cyflwynir yr adolygiadau ar ffurf taenlen gan gynnwys data cydraddoldeb ar gyfer staff a gyflogir ymhob gwasanaeth, hyfforddiant a gwblhawyd (neu beidio), newidiadau a ragwelir (fel staff yn gadael, secondiadau, mamolaeth ac ati), trosiant staff, cydymffurfiaeth â gwerthusiadau, arferion cyflogaeth (gan gynnwys achosion sydd a wnelont â chysylltiadau rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr) a phresenoldeb yn y gwaith. Byddwn yn gwella'r adolygiadau hyn o ran eu diwyg a'u darpariaeth yn y flwyddyn nesaf.

Y problemau pennaf a wynebodd gwasanaethau yng nghyswllt y gweithlu yn ystod 2020 i 2021 oedd materion staffio: recriwtio, cadw ac adleoli. Adleoliwyd aelodau o staff ymhob rhan o'r cyngor i gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau rheng flaen megis gofal ac iechyd yr amgylchedd. Bu gofyn am adnoddau newydd i reoli'r gwasgfeydd oedd yn dod i'r amlwg, gan gynnwys Profi, Olrhain a Diogelu; profion Covid-19 i staff a theuluoedd; a gweinyddu cynlluniau cymorth ariannol Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r staff yn ein swyddfeydd weithio gartref yn ystod y cyfnod hwn ac felly bu'n rhaid newid y diwylliant o ran y trefniadau rheoli arferol.

Mae deiliad rhai swyddi yn y cyngor wedi medru ‘gweithio rhywle’ ers tro bellach. Roedd trosglwyddo i weithio gartref yn drefn gymharol esmwyth i’r aelodau hynny o staff Sir Ddinbych oedd eisoes yn defnyddio’r cyfarpar TG (cyn belled a bod ganddynt gysylltiad â’r rhyngrwyd gartref). Cafodd aelodau eraill o staff drafferthion, fodd bynnag, yn enwedig os cawsant eu hadleoli i swyddi newydd gyda thechnoleg a systemau anghyfarwydd. Roeddem wedi rhoi ein cadernid rhag methiant swyddfeydd/gweinyddion ar brawf o’r blaen wrth gynnal profion cynllunio rhag argyfwng, ac wedi dysgu gwersi gwerthfawr. Er enghraifft, dysgom y dylid sicrhau fod digon o drwyddedau wedi’i sefydlu fel y gallai’r holl staff ddefnyddio ein rhwydwaith ddiogel ar yr un pryd.

Ein nod yw bod pob aelod o staff yn cael o leiaf tri o gyfarfodydd unigol bob blwyddyn. Yn 2020 i 2021, cafodd 45% o’r staff o leiaf tri o gyfarfodydd â’u rheolwyr atebol, neu unigolyn dynodedig arall. Yn amlwg bu’n anodd cynnal cyfarfodydd unigol â staff yn y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig felly gyda staff yn y rheng flaen. Ar ben hynny mae llawer o’r staff wedi’u hadleoli i swyddi newydd wrth inni ymateb i Covid-19. Er gwaethaf hynny, dylai fod modd cynnal cyfarfodydd unigol â staff swyddfa yn rhithiol. Daliwn ati i fonitro faint o gyfarfodydd unigol a gynhelir, gan ddymuno bod o leiaf 95% o staff yn eu cael.

Oherwydd yr holl wasgfeydd dros y flwyddyn ddiwethaf yn y gwaith a’r cartref, mae iechyd meddwl yn fater sy’n dod i’r amlwg. Mae’r cyngor yn ymrwymo i gefnogi staff gyda’u hiechyd a’u llesiant drwy’r ymgyrch Amser i Newid. Byddwn yn llofnodi ein Haddewid Amser i Newid ar 13 Mai 2021 ym mhresenoldeb ein haelodau etholedig, uwch-arweinwyr a’r undebau. Fel rhan o’r Addewid byddwn yn llunio cynllun gweithredu, lansio ein strategaeth iechyd meddwl newydd, cyhoeddi canllawiau i reolwyr a darparu hyfforddiant cynhwysfawr i gefnogi gweithwyr. Mae gennym eisoes nifer o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, ond byddwn yn hyfforddi mwy ohonynt yn y flwyddyn sydd i ddod. Byddwn hefyd yn cyflwyno modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl a fydd yn orfodol i bob aelod o staff ei gwblhau, a bydd hynny’n helpu i godi ymwybyddiaeth a chyfeirio gweithwyr at y gefnogaeth a gynigiwn. Rydym wedi sefydlu Rhaglen Cymorth i Weithwyr i bob aelod o staff. Mae’r gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac nid oes angen i weithwyr ofyn am ganiatâd rheolwr i’w ddefnyddio; mae ar gael 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, 365 diwrnod o’r flwyddyn, naill ai dros y ffôn neu ar-lein. Mae ein mewnrwyd a’n gwefan yn cynnwys adnoddau a dolenni cyswllt at gymorth gydag amrywiaeth o wahanol bethau. Gan fod cymaint o staff yn gweithio gartref am yr wythnos waith gyfan, aethom ati i drefnu hyfforddiant rhithiol gyda darparwr allanol fel y gellid cefnogi staff wrth fagu cadernid personol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi hyfforddi 52 o aelodau o

staff mewn deg o sesiynau Magu Cadernid Personol. Mae 32 o aelodau eraill o staff wedi cael hyfforddiant mewn rheoli straen yn y gweithle, a 14 wedi cael hyfforddiant ar drawma eilaidd a mechnïol.

Mae absenoldebau oherwydd salwch yn arwydd da o iechyd a llesiant gweithlu Sir Ddinbych. Yn ystod 2020 i 2021, roedd cyfartaledd treigl nifer y diwrnodau / sifftiau gwaith a gollwyd oherwydd salwch fesul pob gweithiwr cyfwerth â llawn amser oddeutu 2% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Fel yr oedd hi ym mis Mawrth 2021, collwyd 6.47 o ddiwrnodau ar gyfartaledd oherwydd salwch, o gymharu ag 8.02 yn y flwyddyn flaenorol. Yn ôl pob tebyg mae hyn oherwydd mwy o hyblygrwydd a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith wrth i bobl weithio gartref yn ystod y pandemig, ac efallai hefyd y bu llai o salwch gan na fu bron dim cymysgu cymdeithasol. Dylid nodi nad oes unrhyw ddata ar gyfer rhai cyfnodau o'r flwyddyn oherwydd newidiadau personél yng ngwahanol wasanaethau'r cyngor. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn pennu'r hyn sy'n dderbyniol o ran absenoldebau salwch drwy gymharu ein lefelau absenoldeb â'r holl sectorau eraill (gan ddefnyddio data wedi'u cyhoeddi gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu). Nid oedd modd inni ddiwygio ein trothwyon ar gyfer 2020 i 2021 ac felly daliom i ddefnyddio rhai'r flwyddyn flaenorol. Ar sail hynny, credir bod lefel ein habsenoldebau salwch yn dda.

Rydym wedi dal i ddatblygu ein rhaglen dysgu a datblygu i ategu strategaeth arweinyddiaeth y cyngor a'i sefydlu ymysg y gweithlu. Darperir Hyfforddiant a Datblygu ar gyfer rheolwyr a rheolwyr newydd drwy ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau a dulliau, a darparwyd llawer ohonynt yn rhithiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys:

- Cymwysterau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth gyda Choleg Cambria a Choleg Llandrillo.
- Cyrsiau datblygu proffesiynol cryno ar bynciau arbenigol fel Rheoli Prosiectau.
- Cyrsiau sgiliau meddal, gan gynnwys y cwrs pwrpasol 'Rheolwyr Uchelgeisiol'
- Datblygwyd cyrsiau e-ddysgu mewn sgiliau meddal hefyd ac rydym yn dal i ddatblygu mwy ohonynt, gan gynnwys 'Sgyrsiau Anodd'.
- Cefnogaeth Adnoddau Dynol i ddatblygu sgiliau hyfforddi a mentora.
- Arweiniad a chefnogaeth gan Arbenigwyr Adnoddau Dynol gyda pholisïau a phrosesau.
- Cynhadledd Arweinyddiaeth ar gyfer uwch-reolwyr a rheolwyr canol.

Cynhaliodd y cyngor arolwg rhwng mis Awst a Medi 2020 i ganfod sut roedd staff yn ymdopi â'r ffyrdd newydd o weithio, ac i holi eu barn ynglŷn â sut yr hoffent weithio yn y

dyfodol. Rydym hefyd wedi dysgu gwersi pwysig o'r arolwg staff ynglŷn â'r broses a sefydlom ar gyfer adleoli staff, yn enwedig felly ynghylch cefnogi staff mewn swyddi newydd drwy feithrin dealltwriaeth o'u dyletswyddau a chynnig hyfforddiant a chefnogaeth briodol. Mae'r staff wedi addasu'n dda wrth weithio gartref ar y cyfan, a chanfuwyd eu bod yn mwynhau'r manteision yn hynny o beth (fel cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, dim teithio), er bod yno anfanteision hefyd (trafferthion cysylltu, dim swyddfa bwrpasol, gweld eisiau cydweithwyr). Dywedodd y rhan helaeth o'r ymatebwyr (86%) y dymunant i weithio gartref fod yn rhan o'u trefniadau gwaith yn y dyfodol, ynghyd â threulio rhywfaint o amser mewn swyddfa neu weithle, ac fe rannodd y staff syniadau ynglŷn â sut ellid gwneud hynny'n fwy effeithiol. Rydym yn rhoi sylw i ganlyniadau'r arolwg wrth ystyried sut fydd y cyngor yn gweithio yn y dyfodol, sut fyddwn yn defnyddio ein swyddfeydd (gan gynnwys y posibilrwydd o staff yn gweithio mewn swyddfeydd cyrff cyhoeddus eraill sy'n nes at adref) a sut allwn gadw allyriadau carbon mor isel â phosib. Yr her inni dros y flwyddyn sydd i ddod fydd datblygu ffordd newydd o weithio sy'n effeithiol i'n cymunedau, defnyddwyr gwasanaethau, aelodau etholedig, partneriaid a staff. Wrth i'n cynlluniau ddatblygu byddwn yn adolygu'r gefnogaeth a gynigiwn i'r staff, gan gynnwys eu hamodau gwaith, hyfforddiant a datblygu.

Asedau

Mae'r ffordd y mae'r cyngor yn rheoli ei asedau'n medru cael effaith arwyddocaol ar ddarpariaeth ein gwasanaeth a sefyllfa ariannol y cyngor. Mae rheoli ein portffolio eiddo a'n hasedau ffisegol (gan gynnwys adnoddau TGCh) yn effeithiol ac effeithlon yn helpu i sicrhau bod y cyngor:

- ddim yn gwastraffu arian ar asedau nad oes eu hangen i fodloni anghenion gwasanaethau, neu sy'n rhy ddrud eu cynnal;
- yn rhoi gwasanaeth da i'r cyhoedd gydag asedau sydd mewn cyflwr da ac yn gwneud gwasanaethau'n hygyrch; neu
- ddim yn colli unrhyw gyfleoedd i rannu asedau ag asiantaethau cyhoeddus a fyddai'n hwyluso pethau i gwsmeriaid.

Gydol 2020 i 2021 bu adnoddau a chefnogaeth TGCh yn hollbwysig i'r cyngor. Cyflawnwyd nifer o swyddogaethau'r cyngor yn llwyddiannus drwy weithio'n rhithiol yn ystod y pandemig. Gwnaed mwy o ddefnydd o'r system CAG yn y cyfnod hwn, lle mae defnyddwyr yn cael mynediad at systemau'r cyngor ar-lein, gan gynyddu o oddeutu 200 y

diwrnod i bron i 1,600. Cynhelir bron bob cyfarfod – gweithredol a democrataidd – dros y we ar hyn o bryd.

Wrth i'r ffrwd waith 'Ffyrdd Newydd o Weithio' ystyried y dyfodol ar gyfer gweithlu Sir Ddinbych, mae'n amlwg y byddwn yn dal ati â'r dulliau gweithio rhithiol hyd yn oed pan na fydd raid inni gadw pellter cymdeithasol mwyach. Un o'r cerrig milltir allweddol ar gyfer y ffrwd waith hon yw sicrhau fod gan y cyngor yr offer TGCh i weithio dros y we a bod gan Swyddogion ac Aelodau'r cyfarpar iawn i wneud eu gwaith ble bynnag y maent.

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych oddeutu 1,000 o asedau priffyrdd. Mae Pontydd a Strwythurau'n derm sy'n cynnwys pontydd, ffosydd cerrig a waliau cynnal. Mae'r Cod Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer Pontydd yn pennu'r graddfeydd amser at gyfer archwilio'r asedau hyn ar sail risg:

- Cynhelir Prif Archwiliadau bob 6-12 mlynedd.
- Cynhelir Archwiliadau Cyffredinol bob dwy flynedd.

Ar sail yr archwiliadau hyn y pennir blaenoriaethau'r rhaglen gynnal a chadw a thrwsio. Ariennir gwaith cynnal a chadw pontydd yn bennaf drwy gyllid cyfalaf a gymeradwyir gan y Grŵp Buddsoddi Strategol.

Daeth adroddiad Archwilio Mewnol yn 2019 i'r casgliad y cyflawnwyd yr archwiliadau hyn, sef y Prif rai a'r rhai Cyffredinol, yn unol â'r graddfeydd amser a bennwyd yn y Cod Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer Pontydd, a bod y canlyniadau'n sail ar gyfer pennu blaenoriaethau'r rhaglen gynnal a chadw.

Ar y cyfan, daeth yr adroddiad i'r casgliad fod yno system dda wedi'i sefydlu ar gyfer blaenoriaethu gwaith trwsio pontydd, ac na chaewyd unrhyw ffyrdd oherwydd cyflwr pontydd, ac mae hynny'n cyfrannu at y flaenoriaeth gorfforaethol Cysylltu Cymunedau. Fodd bynnag, roedd gwendidau yn arferion caffael y tîm, diffyg canllawiau mewnol a'r angen i gynnwys pontydd yn y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn golygu mai dim ond sgôr sicrwydd canolig a roddwyd, sy'n golygu mân wendidau wrth reoli risgiau a/neu ddulliau rheoli, ond heb fod hynny'n atal y gwasanaeth rhag cyflawni ei amcanion.

Mae'r cyngor wedi sefydlu swyddogaeth Landlord Corfforaethol. Yr egwyddor allweddol yn hyn o beth yw bod y cyngor yn berchen ar yr holl asedau a'r gwasanaethau'n eu defnyddio fel tenantiaid. Mae'r holl dir ac eiddo a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau'n eiddo i'r

cyngor neu wedi'i brydlesu ganddo, yn hytrach na'r gwasanaethau eu hunain. Nid yw'r gwasanaethau ond yn meddiannu'r adeiladau er mwyn darparu gwasanaeth ar ran y cyngor.

Mae'r syniad o drin eiddo fel adnodd corfforaethol yn cryfhau rheolaeth strategol y Landlord Corfforaethol dros asedau eiddo'r cyngor, ac mae'n cynnig dull corfforaethol a chydweithredol ar gyfer adolygu a newid y modd y defnyddir asedau, integreiddio a rhannu adeiladau, rheoli cyfleusterau, cynnal a chadw, datblygu ac adnewyddu. Yr amcan yw darparu asedau eiddo sy'n ateb y diben ac yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau. Yn ei dro bydd hynny'n rhoi'r rhyddid i wasanaethau ganolbwyntio ar elfennau gweithredol y ddarpariaeth. Ffurfiwyd y Grŵp Rheoli Asedau i gefnogi'r Landlord Corfforaethol gyda phenderfyniadau strategol ynglŷn ag asedau eiddo'r cyngor, ac i ddarparu swyddogaeth drosolwg a chraffu.

Mae'r cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau sy'n llywio ein gwaith rheoli asedau ac yn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol. Bwriedir adolygu'r strategaeth yn ystod 2021 i 2022 a bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cynnwys blaenoriaethau newydd ar gyfer tir ac adeiladau megis y rhaglen adeiladu ysgolion Band B, targed y cyngor i fod yn ddi-garbon net ac ecolegol-gadarnhaol erbyn 2030, a'r newidiadau y bydd angen eu gwneud yn ein portffolio swyddfeydd er mwyn hwyluso'r ffyrdd newydd o weithio.

Er mwyn sicrhau bod ein hasedau cyfalaf yn dal yn ddefnyddiol yn hirdymor, mae Grŵp Rheoli Asedau'r cyngor yn cwrdd bob tri mis i osod y cyfeiriad strategol ar gyfer pob mater sydd a wnelo â defnyddio tir ac adeiladau'r cyngor yn effeithiol, gan gynnwys (ymysg pethau eraill): Gwerthu Tir ac Eiddo, caffael tir ac eiddo, cynllunio strategol ar gyfer eiddo (gan gynnwys ystyried Cynlluniau Rheoli Asedau), tir arloesol a defnyddio eiddo.

Caffael

Goruchwylir gwaith caffael Sir Ddinbych gan fwrdd cydweithredol Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint. Sefydlwyd y Bwrdd rai blynyddoedd yn ôl a bu'n destun adolygiad Archwilio Mewnol ym mis Mai 2018. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod yn o 'rywfaint o sicrwydd / sicrwydd isel' sy'n golygu y daethpwyd o hyd i wendidau arwyddocaol mewn rheoli risg. Ers hynny mae'r Tîm a'r Bwrdd wedi mynd ati ar y cyd i gryfhau'r trefniadau llywodraethu drwy sicrhau adroddiadau mwy rheolaidd i bwyllgorau'r cyngor, ond bu'n rhaid rhoi hynny o'r neilltu am gyfnod oherwydd Covid-19. Mae nifer o gamau gweithredu i

fynd i'r afael â'r achosion dros bryderon Archwilio Mewnol yn dal yn cael eu cyflawni, gan gynnwys datblygu strategaeth gaffael newydd.

Yn ystod 2020 i 2021, roedd 12% o gontractau Sir Ddinbych gwerth mwy na £25,000 a llai nag £1 miliwn (9 o 73) yn cynnwys buddion cymunedol. Er bod hyn yn llai na'r lefel dderbyniol (20%), gwireddwyd 7 o'r 9 o gontractau rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021, a gallai hynny fod o ganlyniad i effaith y Canolbwynt Buddion Cymunedol newydd. Dros y flwyddyn gyfan, fodd bynnag, roedd llawer llai o gontractau'n cynnwys buddion cymunedol na'r cyfanswm, sef 34% o gontractau (14 o 41), yn 2019 i 2020. Rydym yn ymchwilio i'r rhesymau am hynny.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd pedwar o ddarnau o waith caffael cydweithredol. Roedd hynny'n cynnwys Trwyddedau Meddalwedd y Bathodyn Glas a'r System TGCh Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cwblhawyd y ddau o'r rhain drwy gydweithrediad rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint. Mae Sir Ddinbych hefyd yn monitro nifer y cyfleoedd a gollwyd i gaffael yn gydweithredol. Yn ystod 2020 i 2021, collwyd pump o gyfleoedd. Y rheswm am hynny oedd gwahaniaethau technegol a gwahanol ofynion. Mae'n werth nodi nad oedd y rhan helaeth o gaffaeliadau yn ystod 2020 i 2021 yn addas ar gyfer cydweithio. Er enghraifft, gwaith cynnal a chadw mewn ysgolion neu waith oedd ei angen ar gyfer adeiladau ac eiddo penodol y cyngor.

Gydol y flwyddyn roedd 34% o'r gwariant caffael (mwy na £49 miliwn) wedi mynd i gyflenwyr yn Sir Ddinbych (o gymharu â 25% yn ystod 2019 i 2020). Ein dyhead yw bod 40% o'r holl wariant caffael yn mynd i gyflenwyr lleol yn Sir Ddinbych. Mae yno amrywiaeth o resymau pam nad ydym wedi cyflawni'r uchelgais hon, ac mae rhai ohonynt y tu hwnt i'n rheolaeth. Er enghraifft, efallai ein bod yn prynu nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr yn Sir Ddinbych ond eu bod wedi'u hepgor o'r ffigwr yma gan fod yr anfoneb yn dod o swyddfa ranbarthol neu bencadlys y tu allan i'r sir. Yn ystod y flwyddyn, roedd 56% o wariant y cyngor wedi mynd i gyflenwyr yng Nghymru, sy'n ategu'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Sefydlwyd y Canolbwynt Buddion Cymunedol yn ystod y flwyddyn, wedi'i ariannu fel un o brosiectau'r Cynllun Corfforaethol. Diben y Canolbwynt yw manteisio i'r eithaf ar fuddion i'n cymunedau a ddaw drwy ein gweithgareddau caffael a'n cadwyn gyflenwi. Mae'r Canolbwynt eisoes yn gwneud gwahaniaeth drwy gynnwys buddion yn ein contractau. Mae'r dull newydd o gynnal cyfarfodydd buddion cymunedol ar themâu penodol yn arfer orau y gobeithiwn ei ymestyn i bob prosiect yn y dyfodol. Dyma rai o'r enghreifftiau:

1. Mae cwmni adeiladu Brenig, contractwr ar gyfer tai cymdeithasol y cyngor, ynghyd â Sir Ddinbych yn Gweithio a phartneriaid eraill yn cefnogi pedwar o hyfforddeion i fod yn ‘barod am waith’, gyda phob un yn derbyn hyfforddiant a mentora ym maes adeiladu.

2. Mae’r Canolbwynt yn gweithio â Chyngor Tref Dinbych a Dinbych yn ei Blodau er mwyn sicrhau buddion a fydd yn ychwanegu gwerth at y gymuned leol yn Ninbych.

3. Bu’r Canolbwynt yn cefnogi prosiect Amddiffynfeydd Môr Dwyrain y Rhyl i sicrhau buddion ôl-weithredol, megis mynediad at leoliadau hyfforddiant, meithrin cyswllt ag ysgolion, cefnogi’r banc bwyd lleol a helpu prosiect y Gwasanaethau Cefn Gwlad i symud deunyddiau wedi’u carthu o wely’r môr i fannau eraill. Bydd y gefnogaeth i ysgolion yn cynnwys estyn allan yng nghyswllt pynciau STEM, gan gynnwys cynnig mynediad i Academi Balfour Beatty sy’n cynnwys amrywiaeth helaeth o adnoddau dysgu a chefnogaeth gan Lysgennad STEM.

4. Cefnogodd y Canolbwynt y prosiect i ddymchwel Marchnad y Frenhines gan sicrhau tri o leoliadau gwaith â thâl, un lleoliad hyfforddiant â thâl, a disgwyliad y byddai’r contractwr yn gweithio’n agor â thîm Sir Ddinbych yn Gweithio, sydd wedi creu pecyn hyfforddiant pwrpasol i ddatblygu sgiliau’r cleientiaid. Yn ogystal â hynny, sicrhawyd budd cymunedol i rwymo’r contractwr i ddod o hyd i unrhyw nodweddion pensaernïol o bwys hanesyddol neu gymdeithasol a’u cadw’n ddiogel fel y bydd modd eu defnyddio i addurno unrhyw adeiladau newydd ar y safle.

Byddwn yn dal i ddatblygu ein prosesau caffael ac yn meithrin cyswllt â busnesau lleol, yn benodol er mwyn cynyddu buddion cymunedol ac amgylcheddol. Er y gwnaethpwyd cynnydd gwerth chweil wrth sefydlu buddion cymunedol yn ein caffaeliadau, dymunwn weld mwy o gontractau’n cynnwys buddion cymunedol. Bydd ein strategaeth gaffael ddiwygiedig yn ystyried ein dull newydd o ymdrin â buddion cymunedol.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Teitl	2018 i 2019	2019 i 2020	Statws
Boddhad cyffredinol â'r cyngor – **wedi'i feincnodi'n lleol**	40	Dim data Arolwg i'w gynnal yn yr hydref	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y gwahaniaeth yn y gyfradd gymedr fesul awr i fenywod – **wedi'i feincnodi'n lleol**	7.7	-9.7	Rhagorol
Canran y swyddi â chyflogau isaf (chwarter isaf) a ddelir gan fenywod – **wedi'i feincnodi'n lleol**	79.4	79.1	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y gweithwyr newydd oedd wedi datgan yn eu ceisiadau eu bod yn perthyn i grŵp lleiafrifol ar sail hil neu grefydd, bod ganddynt anabledd, eu bod yn hoyw neu'n ddeurywiol, neu wedi ail-bennu eu rhywedd – **wedi'i feincnodi'n lleol**	7	15	Amherthnasol Cyfrif yn unig

Teitl	2019 i 2020	2020 i 2021	Statws
Presenoldeb aelodau (disgwyliedig a phresennol) yn y flwyddyn hyd yn hyn – **wedi'i feincnodi'n lleol**	79	89	Da

Teitl	2019 i 2020	2020 i 2021	Statws
Sero Carbon Net - Cyfanswm y tunelledd carbon a ollyngir ac a amsugnwyd gan y cyngor (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi) – **wedi'i feincnodi'n lleol**	14,030	10,277	Amherthnasol
Canran y staff a gafodd o leiaf 3 o gyfarfodydd unigol yn y 12 mis diwethaf – **wedi'i feincnodi'n lleol**	Dim data Newydd yn 2020 i 2021	45	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Teitl	Chwarter 4 2019 i 2020	Chwarter 1 2020 i 2021	Chwarter 2 2020 i 2021	Chwarter 3 2020 i 2021	Chwarter 4 2020 i 2021	Statws
Canran straeon negyddol yn y newyddion o blith yr holl straeon newyddion am y cyngor – **wedi'i feincnodi'n lleol**	3	5	4	12	24	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y gwariant caffael lleol yng nghyfanswm y gwariant caffael – **wedi'i feincnodi'n lleol**	Dim data Newydd yn 2020 i 2021	30	36	34	36	Da

Teitl	**Chwarter 4 2019 i 2020**	**Chwarter 1 2020 i 2021**	**Chwarter 2 2020 i 2021**	**Chwarter 3 2020 i 2021**	**Chwarter 4 2020 i 2021**	**Statws**
Canran contractau Sir Ddinbych gwerth mwy na £25,000 a llai nag £1 miliwn oedd yn cynnwys buddion cymunedol – **wedi'i feincnodi'n lleol**	100	0	12	0	28	Derbyniol Credir bod y cyfartaledd cenedlaethol yn flaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran Llinynnau Mesur y Cynllun Corfforaethol sydd â'r statws 'Blaenoriaeth ar gyfer gwella' – **wedi'i feincnodi'n lleol**	47	Dim data oherwydd Covid-19	47	49	49	Derbyniol
Nifer y prosiectau ar y gofrestr prosiectau sydd 'dan fygythiad' – **wedi'i feincnodi'n lleol**	0	0	2	0	1	Da

Teitl	Chwarter 4 2019 i 2020	Chwarter 1 2020 i 2021	Chwarter 2 2020 i 2021	Chwarter 3 2020 i 2021	Chwarter 4 2020 i 2021	Statws
Canran y prosiectau y diweddarwyd eu 'hyder i gyflawni' yn y tri mis diwethaf – **wedi'i feincnodi'n lleol**	Dim data Newydd yn chwarter 3	Dim data Newydd yn chwarter 3	Dim data Newydd yn chwarter 3	90	94	Da
Canran y Risgiau Corfforaethol sy'n anghydnaws â Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y cyngor – **wedi'i feincnodi'n lleol**	Dim data Newydd yn chwarter 2	Dim data Newydd yn chwarter 2	52	Dim data Chwemisol	55	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer yr adroddiadau negyddol gan gyrff rheoleiddio allanol – **wedi'i feincnodi'n lleol**	0	0	0	0	0	Rhagorol

- Ystyried cyfyngiadau i fynediad corfforol, yn benodol gydag adeiladau newydd, ond hefyd mewn perthynas â mynediad at wybodaeth a gwasanaethau.
- Ystyried pa mor briodol yw'r cyfleusterau sydd ar gael gennym yn stad y cyngor i'w defnyddio gan y bobl hynny sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Ymgysylltu, herio a, lle bo modd, cael gwared ar rwystrau i gyfleoedd (gan gynnwys gwaith) ar gyfer y rhai hynny sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Condemnio bwlio ac aflonyddu sy'n ymwneud â chasineb.

Mae ein prosiect a phrosesau rheoli'r rhaglen, sy'n cefnogi darparu pob prosiect yn y Cynllun Corfforaethol, yn gorfodi'r egwyddorion hyn; ac yn arbennig dull y cyngor ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Les pob prosiect, cynllun a pholisi sydd angen gwneud penderfyniad arnynt wedi'i ymgorffori'n dda a'i ddeall gan staff a chynghorwyr. Yn ddiweddar rydym wedi addasu ein Hofferyn Asesu Effaith ar Lesiant er mwyn cynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cymru a gyflwynwyd eleni o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nod y ddyletswydd yn y pen draw yw sicrhau gwell canlyniadau i bobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, gan ystyried y dystiolaeth a'r effeithiau posib, a thrwy ymgynghori ac ymgysylltu, dod i ddeall safbwyntiau ac anghenion y bobl y mae penderfyniadau'n effeithio arnynt. Mae'r Ddyletswydd yn annog herio penderfyniadau a chraffu arnynt, a bydd hynny'n arwain at newid yn y ffordd yr ydym yn darparu tystiolaeth ar gyfer ein penderfyniadau, ac yn sicrhau bod gennym drywydd archwilio eglur ar gyfer pob penderfyniad.

Mae ein tudalennau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar ein gwefan hefyd yn dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn, i wella ansawdd bywydau pawb sy'n byw yn Sir Ddinbych, yn gweithio yma ac yn ymweld â'r sir. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud addewid y bydd yn cefnogi menter Dim Hiliaeth Cymru. Mae'r addewid yn datgan nad yw'r cyngor yn barod i oddef hiliaeth ar unrhyw ffurf ac yn cefnogi galwadau Dim Hiliaeth Cymru i bob sefydliad ac unigolyn hyrwyddo cytgord hiliol ac ymrwymo i hyn yn y gweithle ac yn eu bywydau beunyddiol. Fe geir rhagor o wybodaeth ar wefan Dim Hiliaeth Cymru.

Mae’r camau gweithredu eraill i ategu ein Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn cynnwys:

Hyfforddiant

Rydym yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb i staff drwy fodiwl e-ddysgu cydraddoldeb ar-lein. Darperir yr hyfforddiant hwn i’r holl weithwyr newydd ac mae’n orfodol i holl staff. Yn 2021 diwygiwyd y modiwl hyfforddiant cydraddoldeb er mwyn cynnwys Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cymru. Darparwyd deunyddiau a sesiynau hyfforddiant i aelodau o’r Cabinet, y Tîm Arwain Strategol, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a’r staff ym mis Chwefror a Mawrth. Yn ogystal â hynny, fe wnaeth ein Tîm Cynllunio Strategol friffio’r rhai sy’n penderfynu ynghylch prif swyddogaethau’r cyngor, fel caffael, archwilio mewnol, y gyfraith, cyllid a’r Grŵp Trechu Tlodi ynglŷn â gofynion y Ddyletswydd newydd hon a’r gofyniad i ddangos tystiolaeth y rhoddwyd ystyriaeth i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud pob penderfyniad strategol o fewn y sefydliad.

Ymgysylltu

Defnyddir ein porth Sgwrs y Sir i ganfod beth sy’n fwyaf pwysig i’n cymunedau ac mae’n helpu i wneud yn siŵr ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd iawn. Mae’r holl waith a wnaed ar Sgwrs y Sir wedi cynnwys cysylltu â grwpiau o’r nodweddion gwarchodedig. Fe ddewch chi o hyd i ragor o wybodaeth am y porth Sgwrs y Sir ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Mae'r cyngor hefyd yn aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, sy’n fforwm gwerthfawr i rannu arfer orau a dysgu am faterion cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus. Mae aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru yn cynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Llywodraeth Cymru. Mae’n bosib y bydd cynllun gwaith i'r dyfodol y Rhwydwaith yn troi ei sylw cyn hir at wneud gwaith i gryfhau cyfleoedd i ymgysylltu gyda grwpiau â nodweddion gwarchodedig yng ngogledd Cymru, yn ogystal â dal i drafod ffyrdd o sefydlu’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a’r egwyddor o weithio mewn partneriaeth yn ddyfnach yn ein aelod-sefydliadau.

Adroddiadau Eraill ar Gydraddoldeb

Bob blwyddyn, mae gofyn i ni fel Awdurdod Lleol gyhoeddi adroddiadau'n nodi manylion ein hymrwymiad a'n cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, adrodd yn rheolaidd ar systemau tâl ac asesu cydraddoldeb tâl.

Yng Nghyngor Sir Ddinbych rydym yn cefnogi'r egwyddor o amrywiaeth a chydraddoldeb gan fod angen pobl o wahanol gefndiroedd arnom i helpu sicrhau ein bod yn gynrychioliadol o'r Sir. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu tâl cyfartal am waith o werth cyfartal ac yn anelu at ddarparu strwythur tâl teg.

Rydym wedi cynhyrchu adroddiad Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gyfer 2019 i 2020 sy'n manylu ynghylch ein hymrwymiad a'n cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth hon. Rydym hefyd wedi llunio Adroddiad Cyflogau'r Rhywiau ar gyfer 2018 i 2019 gan adolygu'r enillion cyfartalog rhwng dynion a menywod yn y cyngor. Cliciwch yma i weld yr adroddiadau diweddaraf am gydraddoldeb ac amrywiaeth ar wefan y cyngor. Ceir dadansoddiad pellach yn ein hasesiad o Gynllunio'r Gweithlu a gyflwynwyd yn gynharach.

Yr Iaith Gymraeg

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo'n llwyr i ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg ac mae ein Strategaeth Iaith bum mlynedd yn adlewyrchu hynny. Nid yw ein hymrwymiad wedi newid a daliwn ati i gyfrannu at yr ymdrechion cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Safonau'n golygu na ddylai'r cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl arfer eu sgiliau Cymraeg yn eu bywydau beunyddiol).

Mae gan bob un o wasanaethau'r cyngor hefyd Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg sy'n monitro cynnydd y Safonau yn rheolaidd, yn rhannu arfer orau ac yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol'. Maent yn cynnal gwiriadau 'cwsmer cudd' a threfnu sesiynau ymwybyddiaeth a gweithgareddau ar gyfer cydweithwyr a dysgwyr.

Yn ddiweddar cynhaliodd y cyngor ei drydedd Eisteddfod wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r digwyddiad yn rhan o ymdrechion y cyngor i godi proffil yr iaith a hybu gwell dealltwriaeth ohoni, a chlodfori diwylliant Cymru. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan mae'r Gymraeg yn destun cryn sylw, ac ar drothwy dychweliad Eisteddfod yr Urdd i'r sir ym mis Mai 2022. Eleni, oherwydd Covid-19 a bod y mwyafrif o'r staff yn gweithio gartref, bu'n

rhaid inni fod yn fwy creadigol a chynnal yr Eisteddfod yn ddigidol. Defnyddiom dudalen Facebook breifat ein staff i letya'r Eisteddfod, gan gynnig amryw gategorïau i'r staff gystadlu ynddynt drwy uwchlwytho lluniau. Cafwyd siom ar yr ochr orau o'r ymateb a'r gefnogaeth a gafwyd, ac roedd y staff wedi cyfranogi'n helaeth. Bu'n Eisteddfod ddigidol lwyddiannus dros ben gyda 163 o gynigion ar y cystadlaethau a 700 o bleidleisiau wedi'u bwrw.

Rydym eisiau cefnogi gweithwyr ar eu siwrnai iaith. Rydym yn annog gweithwyr i ymarfer, ac rydym yn trefnu cefnogaeth anffurfiol amrywiol a chyfleoedd trwy gydol o flwyddyn gan gynnwys:

Paned a Sgwrs: Sesiynau anffurfiol i gynyddu hyder staff i siarad Cymraeg. Mae'r rhan helaeth o'r staff yn dal i weithio gartref ac felly cynhelir y sesiynau hyn ar-lein.

Ymgyrch 'Mae gen i hawl': Ymgyrch i amlygu'r gwasanaethau Cymraeg y mae Sir Ddinbych yn eu cynnig a'r hawliau sydd gan bobl i siarad Cymraeg wrth ddelio â'r gwasanaethau hynny. Roedd hyn yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg a cheisio annog mwy o bobl i'w defnyddio. Mae'r ymgyrch farchnata'n sôn am rai o'r hawliau sydd gan aelodau o'r cyhoedd yn ogystal â staff y cyngor.

Hyrwyddo Safonau'r Gymraeg: Rydym wedi llunio dogfennau i hyrwyddo Safonau'r Gymraeg i'w rhannu ar Sir Dinbych Heddiw, LINC, Visiontime a thudalen Facebook y staff. Mae'n rhyw fath o restr wirio i'r staff wrth gydymffurfio â'r safonau. Rydym eisoes wedi hyrwyddo'r safonau ar gyfer ateb y ffôn, trefnu cyfarfodydd a gohebiaeth.

Fideos hyrwyddo: Rydym wedi creu fideos i helpu dysgwyr Cymraeg gyda'u sgiliau, gan gynnwys fideos ar sut i ynganu enwau rhai o drefi a phentrefi Sir Ddinbych, brawddegau defnyddiol mewn cyfarfodydd, a Gair y Dydd. Rydym hefyd wedi llunio dogfennau â geiriau Cymraeg perthnasol wrth ddathlu amryw wyliau cenedlaethol (fel Dydd Mawrth Crempog, Dydd Santes Dwynwen, Sul y Mamau) gyda sillafiadau ffonetig i gynorthwyo dysgwyr.

Dathlu gwyliau cenedlaethol Cymru: Trefnu digwyddiadau i ddathlu achlysuron fel Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Owain Glyndŵr, Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru a llawer iawn mwy.

Gwersi Cymraeg: Rydym yn annog staff i wella eu sgiliau Cymraeg drwy hyrwyddo'r amrywiaeth o gyrsiau 10 awr ar-lein a gynigir i wahanol sectorau drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith.

Mae gofyn i bob gwasanaeth hefyd lunio cynllun gweithlu bob blwyddyn ac mae'n rhaid i'r cynllun hwn ystyried nifer y siaradwyr Cymraeg sydd wedi'u cyflogi o fewn gwasanaethau. Gofynnir i'r holl Benaethiaid Gwasanaeth ystyried a oes ganddynt ddigon o siaradwyr Cymraeg o fewn eu gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd.

Rydym wedi cyflwyno fframwaith newydd i'r staff ei ddefnyddio wrth hunanasesu eu sgiliau iaith yn ôl y mathau o dasgau cyfathrebu (darllen, ysgrifennu, siarad a deall) y gallant eu cyflawni drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ffordd effeithiol o fonitro lefel y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swyddi, a gwybod pa gyrsiau y dylai gweithwyr eu cwblhau er mwyn symud ymlaen i'r lefel nesaf. Rydym hefyd wedi asesu pob swydd yn y cyngor gan ddefnyddio'r un fframwaith yn ôl lefel y sgiliau Cymraeg sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd benodol honno. Ni hysbysebir unrhyw swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol bellach, gan y bydd yn rhaid i bob unigolyn feddu ar sgiliau Cymraeg lefel 1 o leiaf er mwyn ymgeisio. Mewn ffordd, felly, mae'r Gymraeg yn 'hanfodol' ar gyfer pob swydd. Os nad yw unigolyn yn meddu ar y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y swydd, mae'n ofynnol iddynt dderbyn hyfforddiant a chyrraedd y lefel ofynnol cyn pen chwe mis, sef y cyfnod prawf (fel arfer), gyda chymorth ein Swyddog Iaith Gymraeg. Caiff y sgiliau Cymraeg ymhob gwasanaeth eu monitro bob mis, a hefyd bydd rheolwyr yn derbyn gwybodaeth am sgiliau Cymraeg y gweithwyr yn eu gwasanaethau hwy.

Mae'r cyngor yn aelod gweithredol o Bartneriaeth yr Iaith Gymraeg. Mae nifer o sefydliadau lleol a chenedlaethol yn rhan o'r fforwm, sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn gweithio ar ddatblygiad strategol yr iaith yn Sir Ddinbych.

Ein gweledigaeth yw bod mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gyda mwy o bwyslais ar gynnwys gofynion Cymraeg penodol ar gyfer swyddi newydd trwy:

- Gefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn gallu gweithio'n ddwyieithog yn naturiol ac annog a chefnogi staff heb sgiliau Cymraeg i ddysgu'r iaith dros gyfnod o amser.

- Mabwysiadu polisi recriwtio a fydd yn galluogi'r cyngor i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn ei waith gweinyddu o ddydd i ddydd ac yn y gwasanaethau mae'n eu darparu. Un flaenoriaeth fydd canolbwyntio ar yr adrannau sydd yn cynnig gwasanaeth rheng flaen i gwsmeriaid.

- Bydd angen adolygu'r strategaeth eleni a'i rhoi ar waith erbyn 2022; y flaenoriaeth inni, felly, yw darparu strategaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf a fydd yn gosod targedau uchelgeisiol er mwyn sicrhau fod Sir Ddinbych yn sir lle mae diwylliant a threftadaeth Gymreig yn fyw a'r Gymraeg yn ffynnu. Byddwn yn gweithio â phartneriaid wrth osod y targedau a llunio cynllun gweithredu.

Cofrestr Prosiectau

Bob chwe mis Tîm Arwain Strategol y cyngor yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am yr holl brosiectau corfforaethol sydd ar y gweill yn Sir Ddinbych. Mae'r Gofrestr Prosiectau (atodiad I) yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am statws y prosiectau sy'n deillio o Adroddiadau'r Prosiectau hynny, fel y'u lluniwyd gan Reolwyr y Prosiectau a'u cymeradwyo gan y Swyddog Gweithredol Prosiectau.

Ar hyn o bryd mae un prosiect ar y gofrestr yn dangos sefyllfa 'dan fygythiad':

- **Prosiect Archifau ar y cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint:** Hyd yn oed os sicrheir cyllid bydd yno ddiffyg mawr yn y gyllideb oherwydd chwyddiant yn y costau sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r adeilad arfaethedig.

Ar hyn o bryd mae pedwar o brosiectau ar y gofrestr yn dangos sefyllfa 'yn wynebu risg':

- **Bwrsariaeth Cyflogaeth Person Ifanc:** Prin ddefnydd a wneir o'r Fwrsariaeth o hyd oherwydd y cyfyngiadau Covid-19, sy'n dechrau llacio bellach. Mae rhai darparwyr yn methu â chynnal y cyrsiau hyfforddiant a ddymunant ar hyn o bryd, sydd o bosib yn cyfyngu ar nifer y cyrsiau sydd ar gael.
- **Gwella Effeithlonrwydd Ynni yn Nhai'r Cyngor:** Erys risg o ran hyder yn y gallu i gyflawni'r prosiect, wedi i'r pandemig effeithio ar y rhaglen waith.
- **Marchnata:** Yn wynebu risg oherwydd diffyg gallu i gyflawni'r prosiect.

- **Ailfodelu Gweithredoedd Gwasanaeth Gwastraff:** Llithriant yn y rhaglen oherwydd darparu'r depo newydd, sydd wedi arafu oherwydd effaith Covid-19 ac oedi wrth gwblhau pryniant y safle.

Cyrff Rheoleiddio Allanol

Mae cyrff rheoleiddio allanol yn craffu ar waith pob cyngor yng Nghymru i sicrhau ein bod yn defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol ac effeithlon i sicrhau buddion i'n cymunedau.

Archwilio Cymru

Ym mis Ebrill 2021 cyhoeddodd Archwilio Cymru grynodeb o'i archwiliad blynyddol o Gyngor Sir Ddinbych. Mae'r grynodeb yn dangos y gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019, ac mae'n rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru. I grynhoi:

Archwilio Cyfrifon Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2019 i 2020

Rhoes yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamwys, wir a theg ar ddatganiadau ariannol y cyngor ar 15 Medi 2020, yn unol â'r terfyn amser statudol. Roedd adroddiad yr archwilydd hefyd yn cynnwys pwyslais ar fater yn disgrifio cymalau ansicrwydd prisio perthnasol ar eiddo'r cyngor ac ar Gronfeydd Eiddo ar y Cyd a ddelir gan Gronfa Bensiwn Clwyd. Achoswyd y rhain gan y pandemig Covid-19.

Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol y cyngor a'r Adroddiad Naratif yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r canllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol yr oedd y cyngor wedi'u paratoi a chanfyddiadau Archwilio Cymru o'r cyngor.

Roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar Fehefin 15 2020 yn dda. Roedd hyn yn dipyn o gamp gan ystyried yr heriau digynsail yr oedd y pandemig Covid-19 wedi'u creu.

Gwnaed nifer o newidiadau yn natganiadau ariannol y cyngor ar sail gwaith Archwilio Cymru, a hysbyswyd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio o'r rheiny mewn Adroddiad ar Ddatganiadau Ariannol Archwilio Cymru a gyflwynwyd ar Fedi 9 2020.

Rhoes yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif i gadarnhau y cwblhawyd yr archwiliad o gyfrifon 2019 i 2020 ar Fedi 16 2020. Yn ogystal â bod yn gyfrifol am archwilio datganiadau ariannol y cyngor, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am ardystio nifer o hawliadau am grantiau a datganiadau cyllid. Nid yw gwaith Archwilio Cymru hyd yma wedi amlygu unrhyw broblemau o bwys. Ceir rhagor o ffeithiau a ffigurau allweddol o ddatganiadau ariannol 2019 i 2020 yma.

Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Casglu gwastraff o'r cartref (Tachwedd 2019)

Roedd a wnelo'r archwiliad hwn a gynhaliodd Archwilio Cymru yn 2019 i 2020 ag i ba raddau'r oedd y cyngor wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddiwygio'r trefniadau casglu gwastraff o'r cartref, ac ategu'r nod llesiant o ddarparu amgylchedd deniadol sydd wedi'i ddiogelu. Daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod y cyngor wedi dechrau cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam ac wrth weithredu i'w gyflawni. Ceir cyfleoedd, fodd bynnag, i fynd ymhellach wrth integreiddio'r pum ffordd o weithio yn y drefn o gynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae'r adroddiad i'w weld yma.

Gwelliant Parhaus

Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol i gynllunio ar gyfer gwella ac adrodd yngylch hynny, a'i fod o'r farn bod y cyngor yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2020 i 2021.

Cynaladwyedd Ariannol (Mawrth 2020)

Yn ystod 2019 i 2020 bu i Archwilio Cymru archwilio cynaladwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru. Yn sgil yr archwiliad yn Sir Ddinbych daethpwyd i'r casgliad fod y cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gref, ond fod arno angen cryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a rheoli rhywfaint o or-wariant mewn rhai gwasanaethau i gyfrannu at gynaladwyedd ariannol yn y dyfodol. Mae'r adroddiad i'w weld yma.

Menter Twyll Genedlaethol

Ym mis Hydref 2020 cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar ganfyddiadau'r ymarfer paru data diweddaraf yng Nghymru ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol. Bu i'r ymarfer helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y 22 o awdurdodau unedol, i

ganfod twyll a gordaliadau gwerth cyfanswm o £8 miliwn. Mae'r adroddiad i'w weld yma. Mae'r gwaith datblygu'n parhau gyda'r Fenter ac yn yr ymarfer nesaf (Menter Twyll Genedlaethol 2020 i 2021) bydd gan awdurdodau lleol yn medru paru data gyda'r nod o ddod o hyd i geisiadau twyllodrus posib am grantiau cymorth busnes Covid-19.

Trefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu (Awst 2019)

Yn ystod 2019 i 2020 cynhaliodd Archwilio Cymru archwiliad o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn Sir Ddinbych. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod gan y cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu ond fod angen gwella'r trefniadau monitro ac adrodd ynghylch perfformiad. Mae'r adroddiad i'w weld yma..

Gwasgfeydd ar gyllidebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Awst 2020)

Yn ystod 2019 i 2020 cynhaliodd Archwilio Cymru archwiliad o weithio mewn partneriaeth wrth gomisiynu ac ariannu gofal preswyl a chartrefi nyrsio i bobl hŷn yn Sir Ddinbych. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y cyngor wedi methu â manteisio i'r eithaf ar y buddion posib o weithio mewn partneriaeth wrth gomisiynu a gweinyddu'r gwasanaeth.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn

Ym mis Mai 2019, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolygiad o wasanaethau oedolion hŷn y cyngor fel rhan o adolygiad cenedlaethol o'r modd y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn atal anghenion rhag dwysau, ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r adroddiad i'w weld yma. Ym mis Gorffennaf 2020 cyflwynodd AGC ei lythyr perfformiad blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych yn 2019 i 2020. Mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o arfarniad AGC o berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol (oedolion a phlant) yn ystod 2019 i 2020.

Ni chafodd Cyngor Sir Ddinbych unrhyw archwiliadau eraill yn y cyfnod hwn, ond bu Estyn yn arolygu ysgolion lleol yn ôl yr arfer, ac fe gynhaliwyd adolygiadau cyson o wasanaethau yn Sir Ddinbych sydd wedi cofrestru ag AGC.

Gwaith yn yr arfaeth yn 2020 i 2021

Mae Archwilio Cymru hefyd yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd allweddol i'r cyngor. Gall risgiau gael effaith ar allu'r cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol yng nghyswllt yr egwyddor datblygu cynaliadwy, y modd y mae'n defnyddio'i adnoddau, a gwelliant

parhaus. Y pandemig Covid-19 yw'r risg fwyaf a'r mater pwysicaf y mae cynghorau a'r sector cyhoeddus yn ei wynebu yn 2020 i 2021. Mae Archwilio Cymru wedi cynllunio ei waith er mwyn rhoi sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r cyngor yn ystod y cyfnod hwn. Mae cynllun gwaith Archwilio Cymru ar gyfer 2020 i 2021 yn cynnwys:

- Cynllunio ar gyfer yr adferiad wedi'r pandemig Covid-19.
- Prosiect dysgu Covid-19 – helpu i adnabod sut ymatebodd cyrff cyhoeddus i'r pandemig a rhannu'r gwersi a ddysgwyd.
- Asesu risg a sicrwydd.
- Adolygu cynaladwyedd ariannol y cyngor.
- Adolygu'r modd y mae'r cyngor yn cyflawni ei uchelgeisiau amgylcheddol.
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- Comisiynu Lleoliadau Cartref Gofal i Bobl Hŷn (cynghorau gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

Casgliadau Data Cenedlaethol

Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus

Ychydig ar ôl dechrau'r pandemig fe benderfynodd Llywodraeth Cymru a Data Cymru atal y drefn o gasglu Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus yn genedlaethol er mwyn i'r Awdurdodau Lleol fedru canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig. Mae hyn wedi effeithio'r casgliadau ar gyfer 2019 i 2020 a 2020 i 2021. Nid yw'n sicr eto beth fydd y drefn yn y flwyddyn i ddod.

Cod Ymarfer: Perfformiad a gwelliant Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

Daeth y Cod Ymarfer i rym ym mis Mawrth 2020. Gan fod awdurdodau lleol yn wynebu heriau digynsail penderfynwyd na fyddai'n ofynnol iddynt ddarparu data ar gyfer 2019 i 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bellach y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol baratoi ar gyfer cyflwyno data 2020 i 2021 yn ystod y cyfnod adrodd nesaf. Rhoddir ystyriaeth o hyd i effaith yr heriau a'r trafferthion y mae awdurdodau lleol wedi'u hwynebu yn ystod 2020 i 2021, a cheir cydnabyddiaeth y gallai hynny effeithio ar gasglu rhywfaint o'r data.

Atodiad 1: Cofrestr Prosiectau (Mai 2021)

Enw'r Prosiect	Ffydd o ran cyflawni
Bwrsariaeth Cyflogaeth Pobl Ifanc	Yn wynebu risg
Sir Ddinbych yn Gweithio: Barod am Waith	Yn profi rhwystrau
Cynllun Dechrau Gweithio Sir Ddinbych	Yn profi rhwystrau
Cyflwyno lle gwaith i fentrau newydd ei rannu yn hen adeilad Costigans.	Yn cadw at y targed
Tai Gofal Ychwanegol Dinbych	Yn cadw at y targed
Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl	Yn cadw at y targed
Adeilad newydd - Ysgol Gatholig 3-16 Crist y Gair yn y Rhyl	Yn cadw at y targed
Adolygiad Ardal Rhuthun – Ysgol Newydd ar gyfer Llanfair DC	Yn cadw at y targed

Enw'r Prosiect	Ffydd o ran cyflawni
Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun (Cam 2)	Yn profi rhwystrau
Prosiect PLANT: Plannu Coed Trefol	Yn cadw at y targed
Gwella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych	Yn profi rhwystrau
Monitro a chefnogi agweddau cadarnhaol gan ddisgyblion at eu hunain a'r ysgol / lles	Yn cadw at y targed
Datblygiadau Tai Cyngor Ychwanegol	Yn profi rhwystrau
Targedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod wedi eu hallgáu'n ddigidol fel bod ganddynt y sgiliau a'r modd i ddefnyddio gwasanaethau digidol	Yn cadw at y targed
Cefnogi Rhieni yn Sir Ddinbych	Yn profi rhwystrau
Sicrhau bod pobl yn cymryd rhan wrth lunio a gwella gwasanaethau	Yn profi rhwystrau

Enw'r Prosiect	Ffydd o ran cyflawni
Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r sector preifat i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol	Yn cadw at y targed
Ailddefnyddio 500 o gartrefi gwag	Yn cadw at y targed
Cymorth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych	Yn profi rhwystrau
Darparu band eang cyflym iawn a rhwydweithiau symudol i bawb	Yn cadw at y targed
Gwella isadeiledd i'w gwneud yn haws i gynnal digwyddiadau	Yn cadw at y targed
Gwella Effeithlonrwydd Ynni yn Nhai'r Cyngor	Yn wynebu risg
Canolbwynt Buddion Cymunedol	Yn cadw at y targed
Iechyd a Lles – Sgiliau Coginio a Maeth	Yn cadw at y targed

Enw’r Prosiect	Ffydd o ran cyflawni
Cynnal ‘asedau byw’ Sir Ddinbych, eu gwella, eu diogelu a’u cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol	Yn cadw at y targed
Gweithio at fod yn Gyngor sy’n Deall Dementia	Yn cadw at y targed
Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru: Gwell Cysylltiadau, Darparu Cyfleoedd i Bawb	Yn profi rhwystrau
Prosiect Rheoli Rhostir ac Atal Tanau Gwyllt	Yn cadw at y targed
Gweithredu i Leihau Cam-drin Domestig	Yn cadw at y targed
Marchnata	Yn wynebu risg
Ail-fodelu Gweithrediadau Gwasanaeth Gwastraff	Yn wynebu risg
Adolygu’r Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol	Yn profi rhwystrau

Enw'r Prosiect	Ffydd o ran cyflawni
Sefydlu Cwmni Dull Darparu Amgen	Yn cadw at y targed
Adeiladau'r Frenhines yn y Rhyl	Yn profi rhwystrau
Strategaeth Parth Cyhoeddus y Rhyl	Yn profi rhwystrau
Datblygu dyluniad i ailgysylltu pen uchaf y stryd fawr â'r traeth yn y Rhyl	Yn profi rhwystrau
Rheoli Cymdogaeth Gorllewin y Rhyl	Yn cadw at y targed
Gorfodaeth yn Canolbwyntio ar Ganol Tref y Rhyl	Yn profi rhwystrau
Stryd Edward Henry	Yn profi rhwystrau
Gwaith modelu traffig a dylunio gwaith gwella traffig	Yn profi rhwystrau

Enw'r Prosiect	Ffydd o ran cyflawni
Adeilad Fictoraidd Swyddfa'r Post	Yn cadw at y targed
Isadeiledd Gwyrdd yn y Rhyl	Yn cadw at y targed
Prosiect Ystafell Bost Canolog	Yn profi rhwystrau
Masnacheiddio'r Biwro Cofnodion Digidol	Yn profi rhwystrau
Prosiect Archifau ar y cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint	Dan fygythiad
Canolfan Iaith Gymraeg	Yn profi rhwystrau
Estyniad ar Ganolfan y Dderwen	Yn cadw at y targed
Cyfleuster Gofal Plant yn Ysgol Twm o'r Nant	Yn cadw at y targed
Gweithredu'r system Eclipse ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	Dim

Atodiad 2: Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (Chwefror 2021)

Disgrifiad o'r Risg	**Risg Gynhenid**	**Risg Weddilliol**	**Amlygiad risg (sgôr) yn gyson ag Archwaeth Risg y cyngor**
Y risg o wall diogelu difrifol pan mae'r cyngor yn gyfrifol, gan arwain at niwed difrifol neu farwolaeth	**B2** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	**D2** Risg Fawr, Annhebygol / Effaith Fawr	Nac ydi. Ni chredir bod hwn yn risg fawr. Yn ôl y Parodrwydd i Dderbyn Risg, nid yw hyn yn ddim mwy na risg fechan.
Y risg bod yr amgylchedd economaidd ac ariannol yn gwaethygu y tu hwnt i ddisgwyliadau presennol, gan arwain at alw ychwanegol am wasanaethau a llai o incwm.	**B1** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr Iawn	**B2** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	Nac ydi. Risg critigol. Yn ôl y Parodrwydd i Dderbyn Risg, nid yw hyn yn ddim mwy na risg gymedrol.
Y risg o ymateb aneffeithiol i dywydd garw, halogi, rhywbeth sy'n peryglu diogelwch y cyhoedd (gan gynnwys ymosodiad seibr) neu ddigwyddiad iechyd y cyhoedd (fel Covid-19).	**A2** Risg Critigol: Bron yn bendant / effaith uchel	**C3** Risg gymedrol: Posib / Effaith ganolig	Ydi.

Disgrifiad o'r Risg	**Risg Gynhenid**	**Risg Weddilliol**	**Amlygiad risg (sgôr) yn gyson ag Archwaeth Risg y cyngor**
Y risg o adroddiad(au) negyddol iawn gan gyrff rheoleiddio allanol.	**C2** Risg Fawr, Posib / Effaith Fawr	**D3** Risg Gymedrol, Annhebygol / Effaith ganolig	Ydi.
Y risg o rwymedigaethau sylweddol yn deillio o ddulliau amgen o ddarparu gwasanaethau.	**B2** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	**C2** Risg Fawr, Posib / Effaith Fawr	Nac ydi. Risg critigol. Yn ôl y Parodrwydd i Dderbyn Risg, nid yw hyn yn ddim mwy na risg gymedrol.
Y risg o ddigwyddiad iechyd a diogelwch yn arwain at anaf difrifol neu farwolaeth. (Lle cyfeirir at Iechyd a Diogelwch, mae hyn yn cynnwys diogelwch tân)	**C2** Risg Fawr, Posib / Effaith Fawr	**D2** Risg Fawr, Annhebygol / Effaith Fawr	Nac ydi. Risg fawr. Yn ôl y Parodrwydd i Dderbyn Risg, nid yw hyn yn ddim mwy na risg fechan.
Y risg bod effaith diwygio'r gyfundrefn les (Credyd Cynhwysol) yn fwy arwyddocaol na'r hyn a ragwelwyd gan y cyngor.	**B2** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	**D3** Risg Gymedrol, Annhebygol / Effaith ganolig	Ydi.

Disgrifiad o'r Risg	**Risg Gynhenid**	**Risg Weddilliol**	**Amlygiad risg (sgôr) yn gyson ag Archwaeth Risg y cyngor**
Y risg na fydd buddiannau rhaglen a phrosiect yn cael eu gwireddu'n llawn.	**B2** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	**D2** Risg Fawr, Annhebygol / Effaith Fawr	Ydi.
Y risg nad yw partneriaethau a chysylltiadau effeithiol yn datblygu rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ddinbych, gan arwain at anghysondeb sylweddol rhwng cyfeiriadau strategol a gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ddinbych.	**B1** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr Iawn	**C2** Risg Fawr, Posib / Effaith Fawr	Nac ydi. Risg fawr. Yn ôl y Parodrwydd i Dderbyn Risg, nid yw hyn yn ddim mwy na risg gymedrol.
Y risg hyd yn oed os yw'r setliad fel y rhagwelwyd, nid yw'r penderfyniadau sy'n angenrheidiol i nodi a darparu'r rhaglen arbedion a galluogi cyllideb gytbwys yn cael eu cymryd neu eu gweithredu'n ddigon cyflym.	**B1** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr Iawn	**C2** Risg Fawr, Posib / Effaith Fawr	Nac ydi. Risg fawr. Yn ôl y Parodrwydd i Dderbyn Risg, nid yw hyn yn ddim mwy na risg gymedrol.
Y risg nad yw'r gallu a sgiliau priodol i gynnal gwasanaethau a pherfformiad corfforaethol ar gael ymysg yr uwch-reolwyr.	**D3** Risg Gymedrol, Annhebygol / Effaith ganolig	**D3** Risg Gymedrol, Annhebygol / Effaith ganolig	Ydi.

Disgrifiad o'r Risg	**Risg Gynhenid**	**Risg Weddilliol**	**Amlygiad risg (sgôr) yn gyson ag Archwaeth Risg y cyngor**
Y risg o dwyll a llygredd yn arwain at golli arian neu enw da ac o bosib yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau.	**C2** Risg Fawr, Posib / Effaith Fawr	**E2** Risg gymedrol / Prin / Effaith fawr	Ydi.
Y risg bod costau gofal yn fwy nac adnoddau'r cyngor.	**B1** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr Iawn	**C2** Risg Fawr, Posib / Effaith Fawr	Nac ydi. Risg fawr. Yn ôl y Parodrwydd i Dderbyn Risg, nid yw hyn yn ddim mwy na risg gymedrol.
Y risg nad oes modd diwallu'r galw am ofal arbenigol yn lleol.	**B2** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	**C2** Risg Fawr, Posib / Effaith Fawr	Nac ydi. Risg fawr. Yn ôl y Parodrwydd i Dderbyn Risg, nid yw hyn yn ddim mwy na risg gymedrol.
Y risg y bydd yr enillion y bydd Sir Ddinbych yn eu derbyn ar ei fuddsoddiad gan y Fargen Dwf Ranbarthol yn anghymesur.	**C2** Risg Fawr, Posib / Effaith Fawr	**D3** Risg Gymedrol, Annhebygol / Effaith ganolig	Ydi.

Disgrifiad o'r Risg	**Risg Gynhenid**	**Risg Weddilliol**	**Amlygiad risg (sgôr) yn gyson ag Archwaeth Risg y cyngor**
Y risg na fydd y cyngor yn gallu lliniaru ar unrhyw effeithiau negyddol o adael yr Undeb Ewropeaidd	**B1** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr Iawn	**B2** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	Nac ydi. Risg critigol. Yn ôl y Parodrwydd i Dderbyn Risg, nid yw hyn yn ddim mwy na risg gymedrol.
Y risg lle nad oes gan y partneriaid adnoddau, flaenoriaethau ar y cyd neu ymrwymiad i gefnogi cyflenwi cynlluniau a blaenoriaethau a rennir.	**B1** Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr Iawn	**C2** Risg Fawr, Posib / Effaith Fawr	Nac ydi. Risg fawr. Yn ôl y Parodrwydd i Dderbyn Risg, nid yw hyn yn ddim mwy na risg gymedrol.
Y risg nad oes gan y cyngor y cronfeydd neu'r adnoddau i gwrdd â'i oblygiadau statudol o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.	**B2** Risg Critigol: Tebygol / Effaith Fawr	**D3** Risg Gymedrol: Annhebygol / effaith ganolig	Ydi.

Disgrifiad o'r Risg	**Risg Gynhenid**	**Risg Weddilliol**	**Amlygiad risg (sgôr) yn gyson ag Archwaeth Risg y cyngor**
Y risg o Glefyd Coed Ynn yn Sir Ddinbych yn arwain at achosion iechyd a diogelwch sylweddol sydd yn cynrychioli risg posib i fywydau pobl	**A1** Risg Critigol: Bron yn bendant / effaith fawr iawn	**A2** Risg Critigol: Bron yn bendant / Effaith fawr	Nac ydi. Risg critigol. Yn ôl y Parodrwydd i Dderbyn Risg, nid yw hyn yn ddim mwy na risg gymedrol.
Y risg bod y cyngor yn methu â chyflawni rhaglen y Cyngor a sefydliadau allanol o fewn yr adnoddau presennol.	**A3** Risg fawr: Bron yn Bendant / Effaith Ganolig	**C4** Risg Gymedrol: Posib / Effaith fach	Ydi.